Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Tystiolaeth Llywodraeth Cymru i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru

## Dyfarniad cyflog athrawon 2020

Mai 2020

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | 4 |
| **Pennod 1: Y sefyllfa economaidd ehangach bresennol / amodau'r farchnad lafur** | |
| 1.1 Y Datblygiadau Diweddaraf a'r Rhagolygon Economaidd Byrdymor | 5 |
| 1.2 Y farchnad lafur | 11 |
| 1.3 Polisïau cyflog y sector cyhoeddus yn ehangach | 13 |
| **Pennod 2: Cyd-destun Ariannol y Sector Cyhoeddus / Fforddiadwyedd** | |
| 2.1 Cyhoeddiad y Sefydliad Astudiaethau Ariannol | 15 |
| 2.2 Gwariant a Gyllidebwyd gan Awdurdodau Lleol ar gyfer ysgolion: 2019/20 | 15 |
| 2.3 Setliad Llywodraeth Leol 2020/21 | 16 |
| 2.4 Trefniadau Cyllido Ysgolion yng Nghymru | 16 |
| 2.5 Cyflog Athrawon | 17 |
| 2.6 Fforddiadwyedd | 18 |
| 2.7 Pensiynau Athrawon | 19 |
| **Pennod 3: Sefyllfaoedd ariannol ysgolion ac effaith dyfarniadau cyflog athrawon blynyddol ar gyllidebau ysgolion** | |
| 3.1 Cyllid Llywodraeth Cymru i ysgolion | 20 |
| 3.2 Cyllideb y Prif Grŵp Gwariant Addysg | 21 |
| 3.3 Diffyg ariannol/cronfeydd wrth gefn ysgolion | 21 |
| 3.4 Cyllid grantiau addysg | 22 |
| **Pennod 4: Data mewn perthynas â'r gweithlu ysgolion, gan gynnwys recriwtio a chadw staff** | |
| 4.1 Y farchnad lafur athrawon | 23 |
| 4.2 Y gweithlu athrawon | 25 |
| 4.3 Proffil oedran arweinwyr ysgolion | 28 |
| 4.4 Cynnal cyflenwad o athrawon ac arweinwyr o ansawdd uchel | 29 |
| 4.5 Swyddi gwag | 33 |
| 4.6 Swyddi gwag i benaethiaid | 35 |
| 4.7 Galw | 36 |
| 4.8 Targedau derbyn Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) | 37 |
| 4.9 Cymhellion ariannol i ddenu athrawon newydd | 41 |

4.10 Ansawdd recriwtiaid newydd / gofynion mynediad sylfaenol ar gyfer AGA 42
4.11 Lefelau recriwtio yn erbyn targedau derbyn AGA 44
4.12 Y galw am arweinwyr yn y dyfodol 51
4.13 Y cyflenwad o arweinwyr 51
4.14 Effaith ar ddosbarthiadau chwech / Addysg Bellach 52

**Pennod 5: Cyflog athrawon – lefelau cymharol a gweithredu diwygiadau diweddar**

5.1 Dim niwed i athrawon yng Nghymru o gymharu ag athrawon yn Lloegr 54
5.2 Cyflog athrawon ystafell ddosbarth a chyflogau arweinwyr ysgolion 55
5.3 Cyflog gweithwyr addysgu proffesiynol o gymharu â phroffesiynau eraill 57
5.4 Defnyddio lwfansau 59
5.5 Symleiddio'r system gyflogau 60
5.6 Opsiynau posibl ar gyfer dyfarniad cyflog 2020-21 a'r costau cysylltiedig 62

## Cyflwyniad

Ysgrifennodd y Gweinidog Addysg at Sharron Lusher, Cadeirydd Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, ar 26 Chwefror yn gofyn am argymhellion y Corff ar ddyfarniad cyflog mis Medi 2020 ar gyfer athrawon ac arweinwyr ysgolion yng Nghymru.

Yn y llythyr, pwysleisiwyd yr amserlenni tynn y bydd angen eu bodloni er mwyn cyflwyno'r dyfarniad cyflog erbyn mis Medi 2020, o dan y model cyflog ac amodau athrawon newydd i Gymru.

I lywio eich trafodaethau, gofynnodd y llythyr cylch gwaith i'r Corff ystyried y ffordd y mae'r trefniadau cyflog yn helpu i recriwtio a chadw athrawon ac arweinwyr o ansawdd. Gofynnir i'r Corff hefyd ystyried y cyd-destun economaidd a chyd-destun ariannol y sector cyhoeddus ac amodau'r farchnad lafur yn ehangach am fod yr angen i sicrhau bod pob argymhelliad yn fforddiadwy yn hollbwysig yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno tystiolaeth Llywodraeth Cymru er mwyn helpu'r Corff i ystyried dyfarniad cyflog 2020 ar gyfer athrawon ac arweinwyr ysgolion yng Nghymru. Mae'n cynnwys tystiolaeth am y farchnad lafur athrawon, yn seiliedig ar y data diweddaraf o ran recriwtio a chadw athrawon, ac mae'n egluro cyd-destun y cyfyngiadau ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus ar hyn o bryd yng Nghymru, y bydd angen iddynt fod yn ganolog i unrhyw argymhellion a gyflwynir gan y Corff.

Ar gais y Corff, mae'r dystiolaeth hefyd yn cynnwys data ar y gweithlu ysgolion, yn enwedig mewn perthynas â chyflog athrawon a lefelau recriwtio a chadw athrawon.

Mae'r dystiolaeth yn gosod y cyd-destun ar gyfer dyfarniad cyflog nad yw'n rhoi pwysau gormodol ar gyllidebau'r sector cyhoeddus, tra'n sicrhau bod ymarferwyr presennol yn cael eu gwobrwyo'n addas a bod addysgu yng Nghymru yn parhau i ddenu recriwtiaid newydd o ansawdd digon uchel i ddiwallu anghenion yn y dyfodol.

# Pennod 1: Y sefyllfa economaidd ehangach bresennol / amodau'r farchnad lafur

## Y Datblygiadau Diweddaraf a'r Rhagolygon Economaidd Byrdymor

At ei gilydd, mae'r data economaidd swyddogol sydd ar gael yn cynrychioli gweithgarwch a ddigwyddodd cyn pandemig y coronafeirws, ynghyd â'r amharu parhaus ar lefelau cynhyrchiant a defnydd o ganlyniad iddo. Mae data'r arolwg yn cyfleu economi sy'n gweithredu ymhell islaw'r capasiti. Er enghraifft, cofnododd mynegai hirsefydledig y rheolwyr prynu (PMI) o gwmnïau'r sector gwasanaethau (mae allbwn y sector gwasanaethau yn cyfrif am tua 80% o economi'r DU) ddarlleniad o 34.5 ym mis Mawrth, i lawr o 53.2 ym mis Chwefror. Mae darlleniad sydd islaw 50 yn y mynegai yn awgrymu bod allbwn yn crebachu. Roedd canlyniad mis Mawrth yn waeth na'r hyn a gofnodwyd pan oedd yr argyfwng ariannol byd-eang ar ei waethaf, gan ddangos y dirywiad cyflymaf o bell yn allbwn y sector gwasanaethau ers yr arolwg cyntaf ym mis Gorffennaf 1996.[1] Casglwyd data ar gyfer y PMI rhwng 12 a 27 Mawrth. Cofnododd mynegai hyder defnyddwyr GfK, yn seiliedig ar ddata a gasglwyd rhwng 16 a 27 Mawrth, ei ostyngiad mwyaf erioed rhwng arolygon.

**Siart 1: Mynegai Hyder Defnyddwyr**




*Ffynhonnell: GfK*

Mae'r data cynnyrch domestig gros (GDP) swyddogol diweddaraf yn dangos mai dim ond 0.1% o dwf a welwyd yn economi'r DU yn ystod y tri mis tan fis Chwefror. Ym mis Chwefror ei hun, gostyngodd CMC 0.1% o gymharu â mis Ionawr. Llai o waith adeiladu o ganlyniad i dywydd gwael oedd prif achos y gostyngiad mewn allbwn ym mis Chwefror. Serch hynny, y darlun ehangach yw nad oedd fawr ddim momentwm cadarnhaol yn yr economi hyd yn oed cyn i ni ddechrau gweld effaith y coronafeirws.

[1] https://www.markiteconomics.com/Public/Home/PressRelease/61f043b216da42618ff2559dd8435bc6

Mae canlyniadau economaidd argyfwng y coronafeirws yn ansicr tu hwnt – mae'n debyg y bydd maint yr effaith andwyol yn dibynnu'n fwy ar ba mor hir y bydd tarfu ar yr economi nag ar lefel y gostyngiad mewn allbwn ac incwm. Y rheswm dros hyn yw po hiraf y bydd y tarfu a'r ansicrwydd cysylltiedig yn para, y mwyaf fydd nifer y busnesau sy'n methu, y mwyaf fydd y cysylltiadau economaidd rhwng busnesau drwy gadwyni cyflenwi yn chwalu, y mwyaf anos y bydd hi i fusnesau sicrhau buddsoddiad ac i fusnesau newydd gael eu sefydlu, y mwyaf y caiff twf ac arloesedd eu cyfyngu, a'r mwyaf y bydd gwerth cyfalaf cwmni benodol a gwerth cyfalaf dynol mwy cyffredinol gweithwyr yn gostwng.

Yn ôl pob tebyg, byddwn yn gweld gostyngiad digynsail yn allbwn yr economi yn ystod yr ail chwarter. Mae senario gyfeirio a ddatblygwyd gan ragolygydd economaidd annibynnol Llywodraeth y DU – y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol – mewn perthynas â'r coronafeirws yn awgrymu y gallai CMC ostwng 35% ar y chwarter o gymharu â'i hallbwn amcangyfrifedig blaenorol ar gyfer y chwarter cyntaf.  Bydd rhai sectorau yn yr economi yn dioddef yn waeth na rhai eraill. Mae'r tabl yn dangos y newid posibl mewn allbwn fesul sector. Niferoedd gwirioneddol bras a fynegir a dylid eu hystyried yn ganlyniadau disgwyliedig enghreifftiol.

**Siart 2: Colledion Posibl o ran Allbwn fesul Sector yn yr Ail Chwarter – Sefyllfa Gyfeirio'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol**

| Sector | Y cant | |
|---|---|---|
| | Pwysau o fewn yr economi gyfan, gan gyfrifo gwerth ychwanegol | Effaith ar allbwn mewn perthynas â'r llinell sylfaen* |
| Amaethyddiaeth | 0.7 | 0 |
| Mwyngloddio, ynni a dŵr | 3.4 | -20 |
| Gweithgynhyrchu | 10.2 | -55 |
| Adeiladu | 6.1 | -70 |
| Cyfanwerthu, manwerthu a'r fasnach foduron | 10.5 | -50 |
| Cludiant a storio | 4.2 | -35 |
| Lletygarwch a bwyd | 2.8 | -85 |
| Gwybodaeth a chyfathrebu | 6.6 | -45 |
| Gwasanaethau ariannol ac yswiriant | 7.2 | -5 |
| Eiddo tirol | 14.0 | -20 |
| Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol | 7.6 | -40 |
| Gweithgareddau gweinyddol a chymorth | 5.1 | -40 |
| Y weinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn | 4.9 | -20 |
| Addysg | 5.8 | -90 |
| Iechyd pobl a gweithgareddau cymdeithasol | 7.5 | 50 |
| Gwasanaethau eraill | 3.5 | -60 |
| **Yr economi gyfan** | **100.0** | **-35** |


*Ffynhonnell: Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol*

Nodwch; y gwaelodlin yw'r rhagolwg a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Mawrth ar gyfer Cyllideb 2020

Bydd cyfraddau diweithdra yn cynyddu fel y bydd, yn ôl pob tebyg, anweithgarwch economaidd. Dylai tarfu o'r fath ar y farchnad lafur fod yn llai difrifol yn ôl cyfran na'r cwymp arfaethedig mewn CMC o ganlyniad i'r mesurau polisi a roddwyd ar waith gan Lywodraeth y DU, yn benodol y cynllun cadw swyddi a'r cynllun cymorth incwm i'r hunangyflogedig drwy gyfnod y coronafeirws. Mae'r cynlluniau hyn yn gymwys i Gymru. Yn annibynnol, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo mwy na £1.7 biliwn i leihau effaith y coronafeirws ar economi Cymru , gan ddilyn yr un mesurau a gyflwynwyd yn Lloegr i gefnogi busnesau ac elusennau yn ystod yr argyfwng ac adeiladu ar y mesurau hynny.[2]

Mae yna ystod eang o effeithiau cychwynnol posibl a llwybrau adfer o'r feirws. Mae amrywiaeth y llwybrau hyn yn pwysleisio maint yr ansicrwydd y mae'r feirws wedi ei achosi, sydd ynddo'i hun yn effeithio ar dwf. Mae senario gyfeirio'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn cynnwys llwybr adfer cyflym. Ar sail y rhagdybiaeth y bydd cyfyngiadau llym ar symudiadau pobl (ac felly weithgarwch economaidd) am yr ail chwarter cyfan yn y bôn, gan symud tuag at normalrwydd yn ail hanner y flwyddyn, cred y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol y gallai CMC gynyddu tua 25% yn y trydydd chwarter a thua 20% yn y pedwerydd chwarter. Ar y llwybr hwn, gallai CMC gynyddu yn y pedwerydd chwarter i'r un lefel ag a welwyd cyn y feirws. Ar gyfer blwyddyn galendr 2020, mae senario gyfeirio'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn dangos gostyngiad o 13% mewn CMC o gymharu â 2019; byddai'r gostyngiad hwn yn fwy nag unrhyw ostyngiad blynyddol a gofnodwyd o'r blaen. Yn 2021, mae CMC yn cynyddu tua 18%, sef y cynnydd cyflymaf a gofnodwyd erioed.

**Siart 3: Rhagamcan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o ran Gostyngiad mewn CMC o Safbwynt Hanesyddol *(newid canrannol o flwyddyn i flwyddyn)***




*Ffynhonnell: Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol*

Proffil adfer enghreifftiol a geir yn senario gyfeirio'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ac ni ddylid ei orddehongli. O ystyried tebygolrwydd effeithiau tymor hwy y rheolau cadw

[2] https://llyw.cymru/Busnesau%20a%20chyflogwyr%3A%20coronafeirws

pellter cymdeithasol, hyd yn oed ar ôl i'r cyfyngiadau ffurfiol gael eu codi, mae'n bosibl na fydd modd sicrhau adferiad cyflym. Yn ôl y Resolution Foundation, gallai cyfyngiadau symud am gyfnod o dri mis, yn debyg i dybiaeth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, arwain at ostyngiad o 10% mewn CMC eleni. Gallai cyfyngiadau symud am gyfnod o chwe mis arwain at ostyngiad o 20%. Gallai cyfyngiadau symud am flwyddyn gyfan (gan ymestyn i'r flwyddyn nesaf) wthio CMC yn 2020 i lawr 24%.[3]

Yn ei hanfod, mae pandemig y coronafeirws yn ffenomen fyd-eang. Mae'r Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF) yn amcangyfrif y gallai CMC y byd grebachu 3.0% yn 2020 a chynyddu 4.5% y flwyddyn nesaf. O ran cyd-destun, gostyngodd CMC y byd 0.1% yn ystod yr argyfwng ariannol. Yn drawiadol, ond yn gyson â'r pwynt a wnaed yn nhrydydd paragraff y diweddariad hwn am yr ansicrwydd ynglŷn â chanlyniadau posibl yr argyfwng, mae'r IMF yn rhagweld colled flynyddol sylweddol lai yn CMC y DU eleni na'r hyn a ragwelir gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a'r Resolution Foundation (-6.5%), ac, yn unol â hynny, adferiad arafach (+4.0%) yn 2021.

**Tabl 1: Amcanestyniadau CMC Gwirioneddol yr IMF (*Newid Canrannol o Flwyddyn i Flwyddyn*)**

| | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|
| Alldro'r Byd | 2.9 | -3.0 | 5.8 |
| G7 | | | |
| UDA | 2.3 | -5.9 | 4.7 |
| Yr Almaen | 0.6 | -7.0 | 5.2 |
| Ffrainc | 1.3 | -7.2 | 4.5 |
| Yr Eidal | 0.3 | -9.1 | 4.8 |
| Y DU | 1.4 | -6.5 | 4.0 |
| Canada | 1.6 | -6.2 | 4.2 |
| Japan | 0.7 | -5.2 | 3.0 |
| Economïau Mawr Eraill | | | |
| China | 6.1 | 1.2 | 9.2 |
| India | 4.2 | 1.9 | 7.4 |
| Rwsia | 1.3 | -5.5 | 3.5 |
| Brasil | 1.1 | -5.3 | 2.9 |
| Economïau Incwm Isel sy'n Datblygu | 5.1 | 0.4 | 5.6 |

*Ffynhonnell: IMF, World Economic Outlook*

Mae'n werth pwysleisio efallai na fydd dirwasgiad nac adferiad yn digwydd ar ffurf "V". Os caiff y cyfyngiadau cymdeithasol a gwaith eu codi'n rhy gynnar, gallem weld ail ymchwydd yn nifer yr achosion o'r haint gan olygu bod angen gosod rhagor o gyfyngiadau symud, a allai arwain at ail don o golledion mewn CMC a chyflogaeth.  Yn

[3] https://www.resolutionfoundation.org/publications/doing-more-of-what-it-takes/


yr amgylchiadau hyn, gallai'r economi weld nifer o achosion o gam-gychwyn fel bod llwybr CMC yn debycach i siâp "W". Os bydd y pandemig yn para cyhyd nes bod cyfran fwy o'r colledion mewn allbwn yn rhai parhaol gan adael mwy o 'greithiau' yn y gweithlu, gallai'r adferiad fod yn araf gyda lefel gymharol isel o weithgarwch am gyfnod estynedig o amser (adferiad siâp "L" neu "U").

Prin yw gwerth gwersi a ddysgwyd o glefydau pandemig blaenorol o ran llunio llwybr yr economi yn y dyfodol: mae strwythurau economaidd ac ymatebion polisi yn newid dros amser; yn hollbwysig, nid ymddengys fod y pandemig presennol yn effeithio ar weithwyr yn y 'prif grŵp oedran' i'r un graddau â chlefydau pandemig blaenorol (felly, er enghraifft, efallai na fydd "nifer y marwolaethau" yn fetrig da ar gyfer cymharu maint economaidd). At hynny, wrth ddelio ag effeithiau gwanychol y feirws, mae'r DU yn wynebu her benodol gan y bydd yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â diwedd cyfnod pontio Brexit a chysylltiadau masnachu â'r UE yn y dyfodol yn effeithio ymhellach ar hyder busnesau, gan waethygu difrod y pandemig.

## Cyllid Cyhoeddus

Mae yna gryn ansicrwydd ynghylch canlyniadau cyllidol hefyd, a fydd yn adlewyrchu dewisiadau polisi Llywodraeth y DU yn ogystal â maint y dirywiad economaidd a pha mor hir y bydd yn para.  Yn senario gyfeirio'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol mewn perthynas â'r coronafeirws, byddai lefelau benthyca'r Llywodraeth yn cynyddu'n sylweddol yn y flwyddyn ariannol gyfredol i £273 biliwn (51.2% o CMC) o gymharu â thua £47 biliwn yn 2019/20. Byddai'r lefelau benthyca eleni £218 biliwn yn uwch na'r rhagolwg cyllidebol a gyhoeddwyd ychydig dros fis yn ôl. Ar gyfer pob mis ychwanegol o gyfyngiadau symud llawn o gymharu â'r tri mis a nodwyd yn ei senario gyfeirio, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn amcangyfrif y byddai £25 biliwn arall yn cael ei ychwanegu at y diffyg, gyda gostyngiad tebyg ar gyfer pob mis pe bai'r cyfyngiadau symud yn para am gyfnod llai. Yn gyson â llwybr y senario gyfeirio ar gyfer adferiad economaidd, mae'r diffyg yn dychwelyd yn gyflym i'r lefel a ragwelwyd cyn sioc y feirws. Gan fod y senario'n cynnwys cynnydd dros dro mewn lefelau benthyca gyda chanlyniadau cymharol gyfyngedig o ran lefel y ddyled (gweler isod), efallai na fydd angen i Lywodraeth y DU yn y senario gyfeirio roi cylch newydd o gyni cyllidol ar waith pan ddaw'r argyfwng i ben. Os bydd yr argyfwng yn para am gyfnod hwy na'r hyn a dybiwyd yn y senario gyfeirio, gan arwain at gynnydd yn lefelau benthyca strwythurol y llywodraeth, yna gellid disgwyl cyfnod o gyni cyllidol ar ryw adeg. Mae'r siart isod yn darparu cyd-destun hanesyddol ar gyfer tybiaethau'r senario gyfeirio o ran diffyg cyllidebol.


**Siart 4: Lefel Fenthyca** Net y Sector Cyhoeddus *(% o CMC)*




*Ffynhonnell: Y* Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

Bydd y cynnydd mewn lefelau benthyca yn cynyddu dyled net Llywodraeth y DU. Bydd lefelau dyled hefyd yn codi o ganlyniad i fesurau a gymerir gan Fanc Lloegr i wrthbwyso'r argyfwng (yn benodol wrth i'r Banc brynu stociau newydd ac ailgyflwyno cynllun cyllid tymor. Nod y ddau gynllun yw sicrhau bod gan yr economi ddigon o hylifedd i weithredu mor agos i'r arfer â phosibl ond maent yn ychwanegu at rwymedigaethau'r Llywodraeth.[4]) Yn wahanol i'r diffyg cyllidebol a allai ddychwelyd i'r lefelau a ddisgwyliwyd yn flaenorol mewn cyfnod cymharol fyr o amser, byddai lefelau dyled mewn perthynas â CMC tua 10% yn uwch erbyn 2024/25. Byddai argyfwng mwy hirfaith yn chwyddo'r cynnydd mewn lefelau dyled yn yr un modd ag y byddai argyfwng byrrach yn arwain at gynnydd llai. Mae lefelau dyled yn y senario gyfeirio ychydig yn llai na'r hyn a welwyd ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd.

**Siart 5: Lefel Fenthyca Net y Sector Cyhoeddus *(% o CMC)***




*Ffynhonnell: Y*

Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

4 https://www.bankofengland.co.uk/coronavirus

### 1.2 Y farchnad lafur

#### Penawdau

Mae canlyniadau'r Arolwg diweddaraf o'r Llafurlu, a ryddhawyd ar 21 Ebrill, yn cwmpasu'r tri mis rhwng mis Rhagfyr 2019 a mis Chwefror 2020 ac felly nid ydynt yn cynnwys effeithiau'r coronafeirws mewn unrhyw ffordd ystyrlon.

Yn y DU, bu cynnydd mewn cyflogaeth dros y chwarter a'r flwyddyn a llai o anweithgarwch economaidd. Bu cynnydd yn y gyfradd diweithdra dros y chwarter gan barhau yr un fath dros y flwyddyn. Yng Nghymru, bu gostyngiad yn y gyfradd cyflogaeth dros y chwarter a'r flwyddyn. Bu cynnydd mewn anweithgarwch dros y chwarter a'r flwyddyn. Yng Nghymru, gwelwyd y gyfradd diweithdra yn cynyddu dros y chwarter, ond yn gostwng dros y flwyddyn. Mae canlyniadau'r Arolwg o'r Llafurlu yng Nghymru yn anwadal am fod y sampl yn gymharol fach. Felly, dylid cadw hynny mewn cof wrth ddarllen y canlyniadau ac mae'n well eu dehongli dros gyfnod o sawl mis. O'r safbwynt hwn, roedd sefyllfa'r farchnad lafur yng Nghymru yn gadarnhaol o gymharu â'r DU.

Bu cynnydd o 2.9% mewn enillion wythnosol cyfartalog cyn chwyddiant (cyflogau rheolaidd ac eithrio bonysau) ar gyfer Prydain Fawr yn ystod y tri mis i fis Chwefror 2020 o gymharu â'r un tri mis yn y flwyddyn flaenorol. Ar ôl chwyddiant, bu cynnydd o 1.3% mewn enillion dros yr un cyfnod. Yn nhermau real, erys enillion islaw'r lefel a gofnodwyd cyn y dirwasgiad diwethaf.

#### Cyd-destun

Gall data misol a chwarterol fod yn anwadal, a dylid eu dehongli yng nghyd-destun y darlun tymor hwy. Mae'r agweddau allweddol yn cynnwys:

- Mae'r bwlch hanesyddol mewn cyfraddau cyflogaeth rhwng Cymru a'r DU wedi culhau'n sylweddol ers 2002.
- Dros y tymor canolig, mae cyfraddau diweithdra yng Nghymru, Gogledd Lloegr a'r Alban wedi bod yn agos i gyfartaledd y DU.
  Dros y blynyddoedd diwethaf, mae gwahaniaethau mewn cyfraddau cyflogaeth wedi cael eu llywio mwy gan wahaniaethau mewn anweithgarwch na gwahaniaethau mewn diweithdra. Mae'r blwch anweithgarwch hanesyddol rhwng Cymru a'r DU, fodd bynnag, wedi cau'n rhannol ers 2002.

#### Data'r DU

Mae cyfradd **cyflogaeth** y DU wedi cynyddu 0.2 pwynt canran dros y chwarter i 76.6%, sef y gyfradd uchaf erioed (bu cynnydd o 172,000 yn nifer y bobl mewn cyflogaeth). Roedd mwy o bobl nag erioed mewn cyflogaeth yn y DU. Dros y flwyddyn, bu cynnydd o 0.4 pwynt canran yn y gyfradd cyflogaeth (352,000 o bobl).

Mae'r gyfradd **diweithdra** yn 4.0% (1.364 miliwn o bobl), sef cynnydd o 0.1 pwynt canran dros y chwarter (cynnydd o 58,000 yn nifer y bobl ddi-waith). Roedd y gyfradd diweithdra yr un fath â'r gyfradd a gofnodwyd flwyddyn yn ôl (22,000 yn fwy).

Roedd y gyfradd **anweithgarwch** yn 20.2%, sef gostyngiad o 0.3 pwynt canran ar y chwarter (136,000 yn llai o bobl anweithgar). Dros y flwyddyn, roedd y gyfradd anweithgarwch wedi gostwng 0.4 pwynt canran (166,000 yn llai).

Roedd **cyflogau** rheolaidd ar gyfer Prydain Fawr (h.y. enillion wythnosol cyfartalog heb gynnwys bonysau, sy'n anwadal) yn ystod y tri mis i fis Chwefror wedi cynyddu 2.9% o gymharu â'r un tri mis yn y flwyddyn flaenorol. Bu cynnydd o 1.3% mewn enillion wythnosol cyfartalog wedi'u haddasu yn ôl chwyddiant. Roedd lefel yr enillion wedi'u haddasu yn ôl chwyddiant islaw'r lefel a gofnodwyd cyn y dirwasgiad diwethaf.

Roedd 795,000 o **swyddi gwag** yn ystod y tri mis i fis **Mawrth**, sef lleihad o 6,000 (-0.8%) ar y chwarter a gostyngiad o 52,000 (-6.2%) ar y flwyddyn. Roedd nifer y bobl ddi-waith fesul swydd wag yn 1.7 yn ystod y tri mis i fis **Chwefror**, sef cynnydd bach o 1.6 yn y flwyddyn flaenorol. Ar ddiwedd y dirwasgiad diwethaf, roedd 5.8 o bobl ddi-waith fesul swydd wag.

**Collodd** 107,000 o bobl eu **swyddi** yn ystod y tri mis i fis Chwefror, sef lleihad o 8,000 (-7.1%) ar y chwarter a chynnydd o 19,000 (21.7%) o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Roedd **cyfanswm yr oriau wythnosol a weithiwyd** wedi gostwng 0.2% dros y chwarter ac wedi gostwng 0.1% dros y flwyddyn. Roedd yr oriau wythnosol **cyfartalog** wedi gostwng 0.7% dros y chwarter ac wedi gostwng 1.1% dros y flwyddyn.

Mae'r ffigurau ar **swyddi'r gweithlu** fesul diwydiant ar gyfer mis Rhagfyr 2019 yn dangos y bu cynnydd o 1.5% (541,000) yn nifer y swyddi dros y flwyddyn – cynnydd o 1.7% (505,000) mewn swyddi yn y sector gwasanaethu, cynnydd o 0.7% (18,000) mewn swyddi gweithgynhyrchu, gostyngiad o 1.4% (-34,000) mewn swyddi adeiladu a chynnydd o 9.7% (36,000) mewn swyddi ym maes amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota. (Noder bod y gyfres hon yn cyfrif swyddi nid pobl, ei bod yn rhannol seiliedig ar ffynonellau gwahanol i'r Arolwg o'r Llafurlu ac na ellir ei chymharu'n uniongyrchol â'r ffigurau ar gyfer cyflogaeth).

**Data Cymru**

Roedd y gyfradd **cyflogaeth** yng Nghymru yn 74.0%, sef gostyngiad o 0.9 pwynt canran dros y chwarter (roedd nifer y bobl mewn cyflogaeth wedi lleihau 24,000 i 1.469 miliwn o bobl). Dros y flwyddyn, bu gostyngiad o 1.5 pwynt canran yn y gyfradd cyflogaeth (cynnydd o 36,000 yn nifer y bobl mewn cyflogaeth).

Roedd y gyfradd **diweithdra** yn 3.7%, sef cynnydd o 0.7 pwynt canran ar y chwarter (cynnydd o 10,000 yn nifer y bobl ddi-waith). Dros y flwyddyn, bu gostyngiad o 0.8 pwynt canran yn y gyfradd diweithdra (lleihad o 15,000 yn nifer y bobl ddi-waith). Roedd 56,000 o bobl yn ddi-waith.

Bu cynnydd o 0.4 pwynt canran yn y gyfradd **anweithgarwch** economaidd, sef 23.1%, dros y chwarter (bu lleihad o 8,000 yn nifer y bobl anweithgar). Dros y flwyddyn, roedd y gyfradd anweithgarwch wedi cynyddu 2.3 pwynt canran (cynnydd o 43,000 yn nifer y bobl anweithgar).

Mae **swyddi'r gweithlu** fesul diwydiant ar gyfer mis Rhagfyr 2019 yn dangos y bu lleihad o 4,000 (-0.3%) yn nifer y swyddi dros y flwyddyn – cynnydd o 0.8% (10,000) mewn swyddi yn y sector gwasanaethu, gostyngiad o 1.7% (-3,000) mewn swyddi gweithgynhyrchu, gostyngiad o 18.4% (-21,000) mewn swyddi adeiladu, a chynnydd o 25.3% (8,000) mewn swyddi ym maes amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota. (Noder bod y gyfres hon yn cyfrif swyddi nid pobl, ei bod yn rhannol seiliedig ar ffynonellau gwahanol i'r Arolwg o'r Llafurlu ac na ellir ei chymharu'n uniongyrchol â'r ffigurau ar gyfer cyflogaeth. Mae'r canlyniadau yn arbennig o anwadal yng Nghymru).

Fel y nodwyd yn flaenorol ac y mae'n werth ei ailadrodd, mae canlyniadau'r Arolwg o'r Llafurlu yng Nghymru yn anwadal iawn am fod y sampl yn gymharol fach. Felly, dylid cadw hynny mewn cof wrth ddarllen y canlyniadau ac mae'n well eu dehongli dros gyfnod o sawl mis. Yn nodweddiadol, caiff newidiadau mewn prif gyfraddau cyflogaeth, diweithdra ac anweithgarwch a gofnodwyd mewn unrhyw gyfnod penodol sy'n wahanol iawn i newidiadau a gofnodwyd ar gyfer y DU eu gwrthdroi yn dilyn hynny. Er enghraifft, cyfnodau o gynnydd mawr iawn mewn cyflogaeth yng Nghymru, a all bara am sawl mis, a gaiff eu dilyn gan ganlyniadau lle yr ymddengys fod newidiadau mewn cyflogaeth yn tanberfformio o gymharu â'r DU.

### 1.3 Polisïau cyflog y sector cyhoeddus yn ehangach

Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn dal i wynebu pwysau ariannol sylweddol o ganlyniad i doriadau cyllidebol ehangach a wnaed gan Lywodraeth y DU. Yn gefndir i hyn mae cyfyngiadau cyflog yn y sector cyhoeddus yn ehangach a mwy o ansicrwydd cyllidol wrth i ni symud tuag at y broses bontio Ewropeaidd, yn ogystal â'r ansicrwydd nawr ynglŷn ag ymatebion o ran arian cyhoeddus yn y dyfodol yn dilyn yr ymatebion brys i bandemig y coronafeirws. Yn fwy nag erioed, mae angen i holl gyrff y sector cyhoeddus ddangos eu bod yn rheoli eu hadnoddau yn dda er mwyn darparu gwasanaethau priodol a chefnogi sefydlogrwydd economaidd.

Roedd dyfarniad cyflog 2019-20 ar gyfer Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu cynnydd o 2.3% yn y bil cyflog. Bydd cyrff hyd braich â threfniadau cyflog cyfatebol wedi gweld cynnydd cymharol yn y bil cyflog. Rhoddodd llawer o gyrff hyd braich eraill ddull gweithredu tebyg ar waith.

Ar gyfer 2018-19 a 2019/20, ymrwymodd awdurdodau lleol yng Nghymru i gytundeb cyflog cenedlaethol ar gyfer eu staff (gan gynnwys staff cymorth addysgu), a oedd yn cynnwys cynnydd i'r rhai ar y pwyntiau cyflog isaf i £8.50 yr awr yn y flwyddyn gyntaf a £9.00 yn yr ail flwyddyn ac, yn ail, gynnydd cyfradd safonol o 2.0% i'r rhai ar y graddau uchaf. Roedd llywodraeth leol wedi bod yn cynllunio ar gyfer cynnydd o 1% o leiaf yn y bil cyflogau a chafodd cyllid ychwanegol ei gynnwys yn setliadau 2018-19 a 2019/20 er mwyn ymdopi â goblygiadau costau ychwanegol y cytundeb cyflogau diweddaraf.

Ymhlith yr enghreifftiau eraill mae rhai rhannau o'r GIG a gafodd gynnydd o hyd at 6.5% (dros dair blynedd i 2020-21) gyda chytundeb gan Weinidogion Cymru i ddarparu cynnydd cyfatebol; a Llywodraeth yr Alban sy'n cynyddu cyflogau fesul haen sy'n golygu bod gweithwyr ar gyflogau is yn cael 3%. Mae newidiadau o'r fath yn tueddu i ganolbwyntio ar fanylion pennawd yn hytrach na'r effaith wirioneddol ar y bil cyflogau.

Nid oes polisi cyflogau ar gael ar gyfer yr holl wasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli yng Nghymru.

Caiff canllawiau ar gylch cyflog cyrff hyd braich gweithredol eu llunio sy'n ceisio sicrhau bod trefniadau cyflogau yn gyfartal i bawb, yn briodol, yn dryloyw, yn cynnig gwerth am arian ac yn gwobrwyo staff yn deg am eu gwaith. Mae'r canllawiau yn cynnwys yr egwyddorion canlynol:

- Dylid cymryd camau i fynd i'r afael â chyfraddau cyflog isel. Dylai pob aelod o staff a gyflogir yn uniongyrchol gael Cyflog Byw (fel y'i diffinnir gan y Sefydliad Cyflog Byw).
- Dylai cydraddoldeb fod yn nodwedd ganolog o systemau cyflog a dylid llunio adroddiadau rheolaidd ar gyflog cyfartal. Dylid llunio adroddiadau blynyddol hefyd ar y bwlch rhwng cyflogau dynion a menywod yn unol â dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus yng Nghymru.
- Dylai cynigion y cylch gwaith fod yn seiliedig ar gynnydd fforddiadwy yn y bil cyflogau. Wrth ystyried gwerth am arian, dylid rhoi sylw i'r ffordd y caiff arian cyhoeddus ei reoli yng nghyd-destun cyfyngiadau cyflog yn y sector cyhoeddus yn ehangach.

## Pennod 2: Cyd-destun Ariannol y Sector Cyhoeddus / Fforddiadwyedd

Dylai unrhyw argymhellion barhau i roi sylw llawn i fforddiadwyedd mewn perthynas â chyd-destun ariannol y sector cyhoeddus wrth ystyried y system ysgolion yn ei chyfanrwydd, h.y. ystyried y pwysau presennol a'r cyfle dilynol i gynyddu costau yn genedlaethol.

## 2.1 Cyhoeddiad y Sefydliad Astudiaethau Ariannol

Mae gwaith ymchwil diweddar gan y Sefydliad Astudiaethau Ariannol yn awgrymu bod cyllid ysgolion fesul disgybl wedi gostwng yn gyflymach yn Lloegr nag yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i gyfuniad o ffactorau sy'n cynnwys mwy o leihad yng ngwariant awdurdodau lleol a gwariant dosbarthiadau chwech mewn ysgolion ochr yn ochr â thwf cyflymach yn nifer y disgyblion.

Rhwng 2009-10 a 2018-19, bu gostyngiad o oddeutu 8% mewn termau real yng nghyfanswm gwariant ysgolion fesul disgybl yn Lloegr. O ganlyniad, mae'r Sefydliad yn ystyried bod y bwlch rhwng Cymru a Lloegr o ran gwariant ysgolion fesul disgybl wedi cau'n gyfan gwbl bron.

Bu'n bosibl i'r Sefydliad wneud y gwaith ymchwil hwn am iddo nodi bod newidiadau i drefniadau cynllunio awdurdodau lleol yn Lloegr yn cynnig ffynhonnell newydd o ddata gan yr Adran Addysg sy'n golygu y gellir cynnal y dadansoddiad hwn. Bydd y Prif Ystadegydd yn ystyried beth mae hyn yn ei olygu i waith dadansoddi yn y dyfodol a'n datganiadau ystadegol.

## 2.2 Gwariant a Gyllidebwyd gan Awdurdodau Lleol ar gyfer ysgolion: 2019-20


Yn 2019-20, roedd awdurdodau lleol yn bwriadu gwario 35% o'u cyllideb gyffredinol ar ysgolion. Cyllidebwyd y byddai'r gwariant gros ar ysgolion yn £2,657 miliwn, sef cynnydd o 3.5% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Cyllidebwyd y byddai'r gwariant gros ar ysgolion fesul disgybl yn £5,857, sef cynnydd o 3.2% neu £181 o flwyddyn i flwyddyn. Gellir rhannu hyn yn £4,914 fesul disgybl a ddirprwyir i ysgolion a £943 fesul disgybl a gedwir ar gyfer gwasanaethau ysgolion a gyllidir yn ganolog.

Cyllidebwyd y byddai £2,229 miliwn yn cael ei ddirprwyo i ysgolion. Mae swm y cyllid y mae awdurdodau lleol yn ei ddirprwyo'n uniongyrchol i ysgolion yn amrywio rhwng 77% a 90% o'r gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion.

Cafodd 83.9% o gyfanswm y gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion ei ddirprwyo'n uniongyrchol i ysgolion, sef gostyngiad o 0.3 pwynt canran o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

**Siart 6: Roedd dadansoddiad o'r ysgol gros gwariant wedi'I gyllidebu dros amser**




(a) Nid yw'r data yn hollol gymaradwy â blynyddoedd blaenorol am fod gwariant Dechrau'n Deg wedi symud o Addysg i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2015-16.

Mae'r Bwletin Ystadegol 'Gwariant a Gyllidebwyd gan Awdurdodau Lleol ar gyfer Ysgolion: 2019-20' (Saesneg yn unig) i'w weld drwy ddilyn y ddolen ganlynol: https://llyw.cymru/gwariant-gyllidebwyd-gan-awdurdodau-lleol-ar-gyfer-ysgolion-ebrill-2019-i-mawrth-2020

Mae cyllidebau dirprwyedig ysgolion a chyllid fesul disgybl ar gyfer 2019-20 ar gael yma:

https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Local-Government/Finance/Revenue/Delegated-School-Budgets

## 2.3 Setliad Llywodraeth Leol 2020-21

Yn 2020-21, bydd awdurdodau lleol yn cael bron £4.5 biliwn gan Lywodraeth Cymru drwy gyllid refeniw craidd ac ardrethi annomestig i'w wario ar ddarparu gwasanaethau allweddol. Mae hyn yn cyfateb i 4.3% neu £184 miliwn ar sail gyfatebol o gymharu â'r flwyddyn gyfredol. Caiff pob awdurdod o leiaf 3% yn fwy o gyllid dros 2019-20, ar sail gyfatebol. Roedd hwn yn setliad gwell nag yr oedd sawl un mewn llywodraeth leol wedi ei ddisgwyl.

## 2.4 Trefniadau cyllido ysgolion yng Nghymru

Mae'r system gyllido ar gyfer ysgolion yng Nghymru yn wahanol iawn i'r trefniadau yn Lloegr. Yng Nghymru, Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am gyllido ysgolion yn ôl y gyfraith. Fel y cyfryw, nid yw Llywodraeth Cymru yn cyllido ysgolion yn uniongyrchol; caiff cyllid ei gyfeirio drwy'r awdurdodau lleol neu'r consortia addysg rhanbarthol. Caiff

ysgolion eu cyllido drwy'r awdurdodau lleol, drwy eu cyllid craidd (cyfuniad o gyllid craidd heb ei neilltuo gan Lywodraeth Cymru (Grant Cynnal Refeniw ac Ardrethi Annomestig a ail-ddosberthir) a'r dreth gyngor), grantiau penodol ac incwm arall a godir yn lleol; caiff gweithgarwch ei gyllido drwy'r consortia rhanbarthol hefyd.

Nid yw'r cyllid craidd a ddarperir gan Lywodraeth Cymru nac incwm yr awdurdodau lleol eu hunain o'r dreth gyngor wedi'u neilltuo, sy'n golygu y gall awdurdodau lleol benderfynu sut y byddant yn gwario'r arian hwn, yn unol â blaenoriaethau lleol. Bwriedir i'r trefniadau dyrannu cyllid ddosbarthu cyllid rhwng awdurdodau er mwyn adlewyrchu amrywiadau yn yr angen cymharol i wario pe bai pob awdurdod yn ymateb mewn ffordd debyg i'r galw am wasanaethau yn ei ardal ac, felly, eu galluogi i godi'r un lefel o dreth gyngor am lefel debyg o wasanaethau.

Am fod y rhan fwyaf o'r cyllid a ddarperir i awdurdodau lleol ar gyfer addysg heb ei neilltuo, nid yw'n bosibl nodi'r elfen ysgolion fel hyn. Mae hyn yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i asesu anghenion ac amgylchiadau lleol a chyllido ysgolion yn unol â hynny. Ar ôl i'r cyllid craidd sydd heb ei neilltuo gael ei ddosbarthu i'r awdurdodau lleol, nhw sy'n gyfrifol am bennu cyllidebau ar gyfer ysgolion yn unol â fformiwla cyllido lleol. Mae Llyfr Gwyrdd[5] Llywodraeth Cymru yn nodi'r hyn a gaiff ei gynnwys yn y fformiwla gyffredinol ar gyfer cyllido llywodraeth leol.

Nid oes gwybodaeth am gyllidebau 2020-21 ar gael gan awdurdodau lleol eto. Yn 2019-20, gwnaeth awdurdodau unedol gyllidebu ar gyfer gwariant refeniw cyffredinol o £7.4 biliwn. Mae addysg yn cyfrif am tua 37% o'r gwariant hwn, y mae 98% (£2.7 biliwn) ohono ar gyfer ysgolion.

### 2.5 Cyflog athrawon

O fewn setliad llywodraeth leol 2020-21, ffactor sylweddol i gynyddu cyllid ar gyfer llywodraeth leol oedd cydnabod y pwysau ychwanegol sy'n wynebu llywodraeth leol o ganlyniad i gytundeb cyflog 2019/20 a chytundeb cyflog arfaethedig 2020/21. Nid yw hyn yn achub y blaen ar argymhelliad y grŵp adolygu.

O ran blwyddyn academaidd 2019/20, dosbarthwyd £34.8 miliwn drwy faes gwasanaeth ysgolion setliad 2020-21 er mwyn cefnogi cost y dyfarniad cyflog 2.75% i athrawon mewn ysgolion a gynhelir o'r dosbarth meithrin i flwyddyn 11. Mae hwn yn cwmpasu'r flwyddyn ariannol lawn (h.y. y pum mis sy'n weddill o flwyddyn academaidd 2019/20 a saith mis cyntaf blwyddyn academaidd 2020/21 sy'n gorgyffwrdd â blwyddyn ariannol 2020-21).

O ran blwyddyn academaidd 2020/21, dosbarthwyd £18.4 miliwn drwy faes gwasanaeth ysgolion y setliad er mwyn cefnogi cost saith mis cyntaf cytundeb cyflog arfaethedig

[5] https://gweddill.gov.wales/topics/localgovernment/finandfunding/settlement/lg-settlement-2018-19/green-book-2018-19/?skip=1&lang=cy

2020/21 (h.y. y saith mis hynny sy'n gorgyffwrdd â blwyddyn ariannol 2020-21). Cyfrifwyd y swm amcangyfrifedig hwn gan ddefnyddio'r rhagolwg gorau o chwyddiant, ar adeg cyfrifo, ar gyfer y flwyddyn berthnasol gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, sef 2.6%. Unwaith eto, diben y cyllid hwn yw cefnogi'r cytundeb cyflog i athrawon mewn ysgolion a gynhelir o'r dosbarth meithrin i flwyddyn 11. Dyrannwyd £1.5m ychwanegol i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg yn 2020-21 er mwyn cefnogi costau'r dyfarniad cyflog 2.75% ar gyfer athrawon chweched dosbarth.

Dylid nodi na ddyrannwyd unrhyw gyllid ychwanegol i ystyried cytundeb cyflog 2020/21 ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth ac addysg bellach.

### 2.6 Fforddiadwyedd

Dros y tymor canolig, mae angen i awdurdodau lleol ystyried cyflog athrawon ochr yn ochr â fforddiadwyedd eu holl wasanaethau, fel rhan o'u gwaith cynllunio ariannol tymor canolig ac yng nghyd-destun cylch cyllideb Llywodraeth Cymru.

Yng nghyd-destun y DU, roedd disgwyl i Lywodraeth y DU gynnal adolygiad cynhwysfawr o wariant yn 2019. Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch Brexit, cafodd yr adolygiad o wariant ei ohirio ac, felly, ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth am gyllid refeniw ar gyfer Llywodraeth Cymru y tu hwnt i fis Mawrth 2021. O ganlyniad, nid yw awdurdodau lleol chwaith wedi cael unrhyw wybodaeth am gyllid gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol. Byddant yn cynllunio ar gyfer amrywiaeth o senarios yn y dyfodol gan ystyried eu hincwm a'u hadnoddau eu hunain yn ogystal â'r ansicrwydd ynghylch cyllid cyhoeddus yn y dyfodol. Yn y tymor byr, mae angen ystyried fforddiadwyedd cyflog athrawon yng Nghymru yng nghyd-destun cyllid cyhoeddus o ganlyniad i COVID-19, blaenoriaethau unigol pob awdurdod lleol a sefyllfa ariannol llywodraeth leol yn gyffredinol.

Wrth baratoi setliad 2020-21, cyfrifwyd y byddai cynnydd o 2.6% yng nghyflog athrawon yng Nghymru o fis Medi 2020 yn cyfateb i gost o oddeutu £18.4 miliwn dros y saith mis sy'n weddill o flwyddyn ariannol 2020-21. Nodwyd y swm hwn wrth gyfrifo dosbarthiad setliad llywodraeth leol 2020-21. Ers hynny, mae data newydd wedi'u cyhoeddi ac mae'r amcangyfrif o'r gost hon wedi cynyddu tua £1m. Byddai angen tua £3.65 miliwn ychwanegol (gan gynnwys y cynnydd o £1m yn sgil yr ailgyfrifiad) i ariannu cynnydd o 3% mewn cyflog. Er mwyn codi £3.65 miliwn ychwanegol drwy'r dreth gyngor, byddai angen i awdurdodau lleol gynyddu biliau'r dreth gyngor tua 0.27% ar gyfartaledd (yn ychwanegol at unrhyw gynnydd blynyddol a gynlluniwyd). Byddai angen i awdurdodau ystyried hyn yng nghyd-destun gofynion gwasanaeth eraill, arbedion neu incwm arall.

Mae awdurdodau lleol eisoes wedi pennu eu cyllidebau ar gyfer 2020-21 yng nghyd-destun gofyniad i lunio cynlluniau ariannol tymor canolig. Yn sgil hynny, byddant wedi ystyried unrhyw gynnydd a ragwelir mewn costau, yn enwedig costau'r gweithlu, yn ogystal â chyfleoedd a gynlluniwyd i wneud rhagor o arbedion a newidiadau i wasanaethau. Fodd bynnag, bydd effaith COVID-19 yn golygu y bydd angen i'r cynlluniau hyn gael eu hadolygu.

Bydd cyllidebau awdurdodau lleol wedi rhoi cyfrif am gost dyfarniad cyflog athrawon rhwng mis Ebrill 2020 a diwedd mis Awst 2020, gan ystyried yr adnoddau a ddarperir yn benodol ar gyfer hyn, fel y nodir uchod, a byddai disgwyl iddynt fod wedi rhagdybio cost dyfarniad ar gyfer y cyfnod rhwng mis Medi 2020 a diwedd mis Mawrth 2021 yn eu cynlluniau er mwyn pennu eu gofynion cyllidebol cyffredinol. Wrth bennu eu cyllidebau, mae awdurdodau yng Nghymru wedi cymeradwyo cynnydd yn y dreth gyngor sy'n amrywio rhwng 2.85% a 6.95%.

Er mwyn ariannu cynnydd o 3% yn nyfarniad cyflog 2020/21, y gost yn y flwyddyn ariannol nesaf (2021-22) fyddai £13.8m mewn perthynas â phum mis olaf y flwyddyn academaidd, sy'n ychwanegol at y cyllid y cyfeirir ato uchod. Ar hyn o bryd, nid oes gan Awdurdodau Lleol unrhyw wybodaeth am gyllidebau y tu hwnt i fis Mawrth 2021. Bydd angen ystyried unrhyw oblygiadau ariannol ar gyfer setliad llywodraeth leol 2021-22 fel rhan o gylch cyllideb 2021-22.

## 2.7 Pensiynau Athrawon

Yn 2019-20, dyrannodd Llywodraeth Cymru £42.1m i fynd i'r afael yn llawn â'r pwysau ychwanegol a amcangyfrifwyd ar gyfer ysgolion a gynhelir yng Nghymru, yr oedd yr elfen chweched dosbarth o'r dyraniad hwnnw yn £3.024m.

Cafodd y newidiadau i bensiynau athrawon eu cyflwyno o ddechrau blwyddyn academaidd 2019/20, felly, mae'r cyllid hwn yn berthnasol i'r cyfnod rhwng mis Medi 2019 a mis Mawrth 2020.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, roedd dosbarthiad setliad ariannol llywodraeth leol yn cynnwys £69.3m i gydnabod y costau ychwanegol sy'n deillio o'r newidiadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU i gyfraniadau pensiwn cyflogwyr ar gyfer athrawon mewn ysgolion a gynhelir, o'r dosbarth meithrin i flwyddyn 11.

O ran yr elfen chweched dosbarth, mae £2.160m ychwanegol wedi'i gynnwys yng nghyllideb y Prif Grŵp Gwariant Addysg ar gyfer 2020-21, sydd, pan gaiff ei gyfuno â'r £3.024m o gyllideb sylfaenol 2019-20, yn darparu cyfanswm cyllid ychwanegol o £5.184m ar gyfer 2020-21.

# Pennod 3: Sefyllfaoedd ariannol ysgolion ac effaith dyfarniadau cyflog athrawon blynyddol ar gyllidebau ysgolion

## 3.1 Cyllid Llywodraeth Cymru i ysgolion

Yng Nghymru, caiff cyllid ysgolion ei ddarparu'n bennaf drwy'r Setliad Llywodraeth Leol ac nid yw wedi'i neilltuo. Credwn mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i asesu anghenion ac amgylchiadau lleol a chyllido ysgolion yn unol â hynny. Mae awdurdodau lleol yn atebol i'w hetholwyr am y penderfyniadau a wnânt.

Fel y soniwyd uchod, mae setliad terfynol 2020-21 yn cynrychioli cynnydd arian parod o £184 miliwn o gymharu â 2019-20, ar sail gyfatebol, sy'n cyfateb i gynnydd o 4.3% ar ôl addasiadau ar gyfer trosglwyddiadau. Caiff pob awdurdod o leiaf 3% yn fwy o gyllid drwy ei ddyraniad ar gyfer 2019-20, ar sail gyfatebol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif y costau ychwanegol sy'n deillio o newidiadau Llywodraeth y DU i gyfraniadau pensiwn cyflogwyr perthnasol; costau ychwanegol cytundeb cyflog athrawon 2019/20 ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21; ac effaith bosibl dyfarniad cyflog 2020/21 a ddaw i rym o fis Medi 2020. Cyfanswm y gost amcangyfrifedig yw £122.5 miliwn. Mae'r arian hwn wedi'i ddarparu a'i ddosbarthu yn unol â'r dangosyddion sy'n berthnasol i'r sector gwasanaeth ysgolion fel rhan o setliad llywodraeth leol 2020-21.

Mae'r setliad hwn yn darparu'r llwyfan mwyaf sefydlog y gall Llywodraeth Cymru ei gynnig i lywodraeth leol ar gyfer cynllunio cyllidebau ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21. Rydym yn gwerthfawrogi'n llawn y pwysau y mae llywodraeth leol yn parhau i'w hwynebu yn dilyn degawd o gyni, ond mae hwn yn setliad da sy'n ymateb i'r pwysau a ragwelwyd gan lywodraeth leol ac yn cynnig cyfle i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod darpariaeth addysgol addas ar gael i bob plentyn. Mae awdurdodau lleol yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Nid yw'r Grant hwn wedi'i glustnodi gan fod Llywodraeth Cymru o'r farn mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i asesu anghenion ac amgylchiadau lleol. Ar ôl i'r Grant gael ei ddosbarthu, yr awdurdodau unigol sy'n gyfrifol am bennu cyllidebau ar gyfer eu hysgolion a'r ddarpariaeth leol a gyllidir ganddynt. Gall ysgolion ddylanwadu ar benderfyniadau cyllido eu hawdurdodau drwy drafod â nhw, er enghraifft, drwy eu Fforwm Cyllideb Ysgolion, fforwm y mae'n rhaid i bob awdurdod ei sefydlu yn ôl y gyfraith.

Mae Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 yn nodi'r drefn y mae angen i Awdurdodau Lleol ei dilyn wrth bennu eu cyllid ar gyfer ysgolion. Mae'r Rheoliadau yn sicrhau cysondeb hyd at bwynt, gan ei bod hi'n ofynnol i 70% o gyllidebau ysgolion gael ei bennu ar sail nifer y disgyblion.

Mae'n hanfodol sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu lle mae eu hangen fwyaf, a bod awdurdodau'n gweithio'n agos gydag ysgolion i sicrhau bod y buddsoddiad yn arwain at welliannau gwirioneddol yn ansawdd yr addysg a ddarperir i ddisgyblion.

### 3.2 Cyllideb y Prif Grŵp Gwariant Addysg

Er mai'r setliad yw'r ffynhonnell unigol fwyaf o gyllid sydd ar gael i lywodraeth leol ar gyfer ysgolion, nid dyma'r unig ffynhonnell o gyllid a ddarperir gennym. Rydym hefyd yn darparu cyllid grant drwy gyllideb y Prif Grŵp Gwariant Addysg er mwyn helpu i sicrhau deilliannau gwell i ddysgwyr yng Nghymru, gan gynnwys drwy'r Grant Datblygu Disgyblion a'r Grant Gwella Consortia Rhanbarthol.

Mae gan unrhyw grantiau penodol a ddyrennir o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg, sy'n helpu ysgolion i sicrhau deilliannau, delerau ac amodau grant clir yn barod, y cytunwyd arnynt â rhanddeiliaid perthnasol.

Mae'r gyllideb adnoddau a chyfalaf Addysg yn cyfateb i £1.8bn ar gyfer 2020-21 (Cyllideb Derfynol 2020-21), sef cynnydd o £86m o gymharu â gwalodlin 2020-21. Er bod y rhan fwyaf o'r gyllideb hon yn cyllido Addysg Uwch ac Addysg Bellach, mae'r elfen sy'n cefnogi ysgolion yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn cyfateb i £0.6bn. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer Rhaglen Addysg Ysgolion yr 21ain Ganrif, y Grant Amddifadedd Disgyblion a'r Grant Gwella Consortia Rhanbarthol.

Mae'r Prif Grŵp Gwariant Addysg wedi'i neilltuo'n llawn ar gyfer 2020-21. At hynny, cwblhawyd adolygiad cyflym o gyllidebau yn ddiweddar er mwyn nodi cyllid mewn cynlluniau presennol ar gyfer 2020-21 y gellir ei ailgyfeirio i gefnogi'r Gronfa Ymateb i COVID-19 Wrth Gefn ganolog. Caiff yr addasiadau hyn, gan gynnwys unrhyw ddyraniadau newydd o'r gronfa COVID-19 wrth gefn ganolog, eu hunioni yn y gyllideb atodol gyntaf. Ar hyn o bryd, dim ond cyllideb refeniw am flwyddyn sydd gennym ac, felly, bydd angen i unrhyw oblygiadau ar gyfer cyllidebau 2021-22 o ganlyniad i ddyfarniad cyflog athrawon 2020/21 gael eu hystyried yng nghyd-destun yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant y bwriadwyd ei gynnal yn ddiweddarach yn 2020 pan fyddai dyraniadau dangosol ar gael.

### 3.3 Diffyg ariannol/cronfeydd wrth gefn ysgolion

Cafodd y datganiad ystadegol diweddaraf ar gronfeydd wrth gefn ysgolion ei gyhoeddi ar 16 Hydref 2019. Ar 31 Mawrth 2019, roedd lefel gyffredinol y cronfeydd wrth gefn a ddelir gan ysgolion yng Nghymru yn £46m, sy'n cyfateb i £102 fesul disgybl ac yn ostyngiad o 8% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd cronfeydd wrth gefn ysgolion cynradd yn cyfrif am £47 miliwn. Bu gostyngiad yn lefel cronfeydd wrth gefn ysgolion uwchradd, fel sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf, a bellach mae diffyg (o £4.4 miliwn) yn y cronfeydd hynny. Gyda'i gilydd, mae hyn yn golygu gostyngiad cyffredinol o £4.0 miliwn yng nghyfanswm y cronfeydd wrth gefn.

Roedd gan 151 o ysgolion cynradd, 77 o ysgolion uwchradd, 8 ysgol arbennig, 1 ysgol feithrin a 10 ysgol ganol yng Nghymru gronfeydd wrth gefn negyddol a oedd yn gyfwerth â £29 miliwn. Roedd gan y 1,287 o ysgolion eraill gronfeydd wrth gefn cadarnhaol, ac roedd gan 150 o'r rhain gronfeydd wrth gefn gwerth mwy na 10% o gyfanswm y gwariant a ddirprwywyd iddynt.

### 3.4 Cyllid grantiau addysg

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cyllid grant ychwanegol sylweddol ar ben y cyllid craidd ar gyfer ysgolion drwy'r Awdurdodau Lleol.

Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o godi safonau a lleihau'r bwlch mewn cyrhaeddiad i bob dysgwr. Rydym yn parhau i fuddsoddi symiau digynsail, gan fuddsoddi £9.4m ychwanegol yn 2020-21 i gynyddu'r Grant Datblygu Disgyblion i dros £100m yn 2020-21 er mwyn helpu ein dysgwyr mwyaf difreintiedig. Rydym hefyd yn darparu mwy na £136.96 miliwn drwy'r grant Gwella Ysgolion Rhanbarthol yn 2020-21, y mae'r Grant Gwella Addysg yn rhan ohono.

Gan gydnabod y costau sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r system newydd ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, rydym wedi ymrwymo £20 miliwn dros dymor presennol y Senedd er mwyn helpu i ddatblygu sgiliau'r gweithlu addysg, gan feithrin gallu o fewn y system a sicrhau y gellir diwallu anghenion dysgwyr mewn amrywiaeth o leoliadau addysg.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu £6 miliwn mewn cyllid refeniw a £10 miliwn mewn cyllid cyfalaf yn 2020-21 fel rhan o'n hymrwymiad cyffredinol gwerth £36 miliwn dros dymor presennol y Senedd i leihau maint dosbarthiadau babanod.

Dros dymor presennol y Senedd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fuddsoddi £100 miliwn er mwyn codi safonau ysgolion ac rydym wedi blaenoriaethu mwy na hanner y buddsoddiad hwn i wella addysgu a dysgu, gan gydnabod mai ein hathrawon yw ein cyfryngau unigol gorau i sicrhau newid a gwelliannau yn yr ystafell ddosbarth.

Rydym yn parhau i ddarparu cyllid cyfalaf sylweddol drwy raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif i wella ein hystâd ysgolion er mwyn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu yn y dyfodol.

Bydd y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2018, yn sicrhau buddsoddiad ychwanegol o £10 miliwn ar gyfer 2020-21. Mae'r buddsoddiad hwnnw yn ychwanegol at y £24m miliwn a fuddsoddwyd eisoes ers lansio'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol. Dyma'r buddsoddiad unigol mwyaf er budd athrawon yng Nghymru ers datganoli. Bydd y cyllid hwn yn rhoi'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen ar ysgolion i gynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd a sicrhau bod newidiadau'n cael eu gwneud mewn ffordd a fydd yn rhoi blaenoriaeth i les athrawon ac yn amharu cyn lleied â phosibl ar addysg y disgyblion. Bydd y cyllid hefyd


yn helpu i sicrhau bod staff cyflenwi ar gael fel y gellir rhyddhau staff i fanteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol.

## Pennod 4: Data mewn perthynas â'r gweithlu ysgolion, gan gynnwys recriwtio a chadw staff

### 4.1 Y farchnad lafur athrawon

Mae Siart 7 yn dangos y newid yn nifer yr athrawon cyfwerth ag amser llawn yn ôl cyfnod ers 2011.

**Siart 7 – Athrawon cyfwerth ag amser llawn yn ôl cyfnod (Cymru)**




Ffynhonnell: CYBLD (Llywodraeth Cymru)
[Gweld y data]

Ym mis Ionawr 2019, roedd 23,593 o athrawon cymwysedig cyfwerth ag amser llawn yn gweithio yng Nghymru o gymharu â 23,871 yn 2018, sef gostyngiad o 1.2 y cant. Er y bu lleihad cyffredinol yn nifer yr athrawon cyfwerth ag amser llawn sy'n gweithio mewn ysgolion meithrin a chynradd (gostyngiad o 3.7% o 12,283.6 yn 2015 i 11,859.2 yn 2019), gwelwyd mwy o leihad yn nifer yr athrawon sy'n gweithio mewn ysgolion uwchradd (gostyngiad o 11.2% o 11,268.8 yn 2015 i 10,011.8 yn 2019).

**Tabl 2 – Athrawon cyfwerth ag amser llawn yn ôl cyfnod mewn ysgolion a gynhelir rhwng 2015 a 2019 (Cymru)**

| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgolion Meithrin | 43.4 | 42.3 | 33.5 | 38.9 | 30.0 |
| Ysgolion Cynradd | 12,240.2 | 12,170.8 | 12,055.6 | 11,940.8 | 11,829.2 |
| Ysgolion Canol | 290.0 | 345.2 | 532.7 | 713.7 | 981.3 |
| Ysgolion Uwchradd | 11,268.8 | 10,983.9 | 10,593.7 | 10,458.7 | 10,011.8 |
| Ysgolion Arbennig | 668.2 | 693.6 | 694.3 | 718.6 | 741.0 |
| Pob Ysgol | 24,510.8 | 24,235.8 | 23,909.8 | 23,870.6 | 23,593.3 |

Ffynhonnell: CYBLD (Llywodraeth Cymru)
[Gweld y data]

Mae nifer yr athrawon cyfwerth ag amser llawn mewn ysgolion canol wedi mwy na threblu yn ystod y cyfnod hwn, o 290.0 i 981.3. Mae nifer yr athrawon mewn ysgolion arbennig wedi cynyddu hefyd (cynnydd o 10.9 y cant o 668.2 yn 2015 i 741.0 yn 2019).

**Tabl 3 – Athrawon cyfwerth ag amser llawn yn ôl gradd a chyfnod mewn ysgolion a gynhelir gan Awdurdodau Lleol (Cymru, Ionawr 2019)**

| | Meithrin a Chynradd | Canol | Uwchradd | Arbennig | Pob ysgol |
|---|---|---|---|---|---|
| Penaethiaid | 1,076.1 | 23.5 | 174 | 38.0 | 1,311.2 |
| Pennaeth dros dro | 114.2 | . | 15 | 5.0 | 133.8 |
| Dirprwy bennaeth | 854.7 | 27.1 | 197 | 40.8 | 1,119.8 |
| Pennaeth cynorthwyol | 251.0 | 76.2 | 568 | 48.9 | 944.1 |
| Athrawon ystafell ddosbarth | 9,563.3 | 854.5 | 9,059 | 608.2 | 20,08.4 |
| **Cyfanswm yr athrawon cymwysedig** | 11,859.2 | 981.3 | 10,012 | 741.0 | 23,593.3 |

Ffynhonnell: CYBLD (Llywodraeth Cymru)
[Gweld y data]

Mae Tabl 3 uchod yn dangos nifer yr athrawon cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru wedi'u rhannu yn ôl gradd a chyfnod. Mae mwyafrif yr athrawon (85.1%) yn athrawon ystafell ddosbarth tra bod 14.9 y cant mewn swyddi arwain.

Rhwng 2018 a 2019, mae nifer y penaethiaid cyfwerth ag amser llawn wedi cynyddu 13.6, ond mae nifer yr athrawon ystafell ddosbarth wedi lleihau 273.0 mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

**Tabl 4 – Nifer y Disgyblion fesul Sector rhwng 2015 a 2019 (Cymru)**

| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgolion Meithrin | 1,076 | 1,019 | 866 | 815 | 679 |
| Ysgolion Cynradd | 273,400 | 276,954 | 276,940 | 277,095 | 274,799 |
| Ysgolion Canol | 4,376 | 5,371 | 9,163 | 12,153 | 17,661 |
| Ysgolion Uwchradd | 182,408 | 178,669 | 174,812 | 172,218 | 170,277 |
| Ysgolion Arbennig | 4,444 | 4,542 | 4,727 | 4,831 | 4,982 |
| Pob Ysgol | 465,704 | 466,555 | 466,508 | 467,112 | 468,398 |

Ffynhonnell: CYBLD (Llywodraeth Cymru)
[Gweld y data]

Ym mis Ionawr 2019, roedd cyfanswm o 468,398 o ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir, sef cynnydd o tua 2,694 ers mis Ionawr 2015.

**Tabl 5 – Cymarebau disgyblion:athrawon mewn ysgolion a gynhelir fesul sector rhwng 2015 a 2019 (Cymru)**

| | Meithrin | Cynradd | Canol | Uwchradd | Arbennig | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ionawr – 2015 | 14.6 | 21.2 | 14.9 | 16.2 | 6.6 | **18.4** |
| Ionawr – 2016 | 14.0 | 21.6 | 15.3 | 16.3 | 6.5 | **18.6** |
| Ionawr – 2017 | 15.4 | 21.8 | 16.8 | 16.5 | 6.8 | **18.9** |
| Ionawr – 2018 | 12.6 | 22.0 | 16.7 | 16.5 | 6.7 | **18.9** |
| Ionawr – 2019 | 13.1 | 22.0 | 17.7 | 17.0 | 6.7 | **19.2** |


Ffynhonnell: CYBLD (Llywodraeth Cymru)
[Datganiad Ystadegol 'Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: ym mis Ionawr 2019']

Dros y blynyddoedd diwethaf bu lleihad yn nifer yr athrawon a chynnydd yn nifer y disgyblion. O ganlyniad, mae'r gymhareb disgyblion:athrawon ar gyfer ysgolion a gynhelir wedi codi. Y gymhareb disgyblion:athrawon ym mis Ionawr 2019 oedd 19.2, gan gynyddu o 18.9 yn 2018 (gweler Tabl 5 uchod). Yn 2019, ysgolion cynradd oedd â'r gymhareb disgyblion:athrawon uchaf, sef 22.0, ac ysgolion arbennig oedd â'r gymhareb isaf, sef 6.7, yr un fath â chymarebau 2018. Y gymhareb disgyblion:athrawon mewn ysgolion uwchradd oedd 17.0.

## 4.2 Y gweithlu athrawon

Mae Siart 8 yn dangos canran yr athrawon gwrywaidd a benywaidd ym mhob categori athro.

**Siart 8 – Athrawon cyfwerth ag amser llawn mewn ysgolion a gynhelir yn ôl categori athro a rhyw (Cymru, Ionawr 2019)**




.

Ffynhonnell: CYBLD (Llywodraeth Cymru)
[Gweld y data]


Ym mhob categori athro, mae'r rhaniad rhwng athrawon gwrywaidd a benywaidd wedi aros yn gymharol sefydlog dros amser, gyda 74.0 y cant o athrawon yn fenywod. Yn achos athrawon ystafell ddosbarth, mae cyfran y menywod ychydig yn uwch, sef 75.7 y cant. Yn achos grwpiau arwain, mae cyfran y menywod ychydig yn is, sef 64.3 y cant.

Mae'r rhaniad rhwng athrawon gwrywaidd a benywaidd yn amrywio rhwng sectorau ysgol hefyd, gydag 82.2 y cant o athrawon cynradd a 64.9 y cant o athrawon uwchradd yn fenywod.

*Mae Llywodraeth Cymru yn casglu mwy o wybodaeth am ddemograffeg y gweithlu ysgolion, gan gynnwys ethnigrwydd ac oedran athrawon yng Nghymru, fel rhan o'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion, a gynhaliwyd am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2019. Caiff y cyfrifiad cyntaf ei gyhoeddi yn ystod ail hanner 2020.*

Mae Cofrestr Ymarferwyr Addysg Cyngor y Gweithlu Addysg yn cynnwys gwybodaeth am y gweithlu addysg, gan gynnwys proffil oedran athrawon.  Mae'r wybodaeth ganlynol am broffil oedran athrawon yn seiliedig ar ddata a dynnir ar 1 Mawrth bob blwyddyn. Mae'r niferoedd yn cynnwys pawb sydd wedi cofrestru, nid dim ond y rhai mewn swydd, a chânt eu mesur yn nhermau cyfrif pen gwirioneddol yn hytrach na niferoedd cyfwerth ag amser llawn.

**Siart 9 – Athrawon (cyfrif pen) yn ôl cyfnod ac oedran, Cymru 2019**




Ffynhonnell: Cofrestr Ymarferwyr Addysg Cyngor y Gweithlu Addysg

Mae'r data i gyd yn seiliedig ar y brif gyflogaeth sydd wedi'i chofnodi ar gofnod yr unigolyn, ni waeth faint o gofnodion cyflogaeth gweithredol sydd gan yr unigolyn hwnnw.


Athrawon Cofrestredig yn ôl Oedran

Yn 2019:

- roedd 24.8% o'r holl athrawon ar Gofrestr Ymarferwyr Addysg Cyngor y Gweithlu Addysg yn 50 oed neu'n hŷn, tra bod 16.4% o'r athrawon dan 30 oed.
- Roedd y gyfran uchaf o athrawon yn y sector meithrin a chynradd rhwng 30 a 39 oed (31.6 y cant a 33.1 y cant yn y drefn honno).
- Yn yr un modd, yn y cyfnod uwchradd, roedd y gyfran uchaf o athrawon rhwng 30 a 39 oed (33.6 y cant).
- Y gyfran uchaf ond un ar gyfer y cyfnod cynradd a'r cyfnod uwchradd oedd y grŵp oedran 40-49 (32.0 y cant yn y cyfnod cynradd a 31.9 y cant yn y cyfnod uwchradd).
- Y gyfran uchaf yn achos y rheini a oedd wedi'u cofrestru fel staff 'cyflenwi' oedd y categori dan 30 oed, sef 21.3 y cant, ac yna 21.1 y cant yn y categori oedran 50-59.

## 4.3 Proffil oedran arweinwyr ysgolion

**Siart 10 – Penaethiaid sydd wedi'u cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg yn ôl oedran, Cymru 2015-2019**




Ffynhonnell: Cofrestr Ymarferwyr Addysg Cyngor y Gweithlu Addysg

Mae Siart 10 yn dangos bod dosbarthiad oedran y penaethiaid ar Gofrestr Ymarferwyr Addysg Cyngor y Gweithlu Addysg wedi aros yn weddol debyg rhwng 2015 a 2019.

Yn gyffredinol yn 2019, roedd y ganran uchaf o benaethiaid rhwng 40 a 49 oed (45.0%), yna 41.9 y cant rhwng 50 a 59 oed, a dim ond 0.2 y cant dan 30 oed.

### Cyfnod ac Arweinwyr Eraill

Yn 2019:

- Roedd bron hanner y penaethiaid yn y sector cynradd yn y grŵp oedran 40 i 49 oed (46.1%) ac roedd 40.2 y cant yn y grŵp oedran 50 i 59 oed.
- Yn achos penaethiaid yn y sector uwchradd, mae 51.3 y cant yn y grŵp oedran 50 i 59 oed gyda 41.7 y cant rhwng 40 a 49 oed.

## 4.4 Cynnal cyflenwad o athrawon ac arweinwyr o ansawdd uchel

Roedd y llythyr cylch gwaith wedi amlinellu pwysigrwydd ystyried sut y gall unrhyw ddyfarniad cyflog gefnogi ymdrechion i recriwtio a chadw staff, a denu digon o athrawon ac arweinwyr o ansawdd i'r proffesiwn, gan sicrhau ar yr un pryd bod trefniadau cyflog yn rhesymol ac yn gyson.

Nid yw'r darlun recriwtio cyffredinol yng Nghymru wedi newid rhyw lawer dros y blynyddoedd diwethaf. Er nad yw cyfraddau recriwtio a chadw staff yng Nghymru gyfan yn destun pryder mawr, rydym yn ymwybodol o dystiolaeth anecdotaidd bod clystyrau o anawsterau wrth recriwtio staff i bynciau uwchradd penodol, mewn rhai ardaloedd yng Nghymru yn ogystal â darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn pynciau penodol. Caiff y problemau recriwtio hyn ar gyfer pynciau blaenoriaeth eu targedu drwy raglenni polisi a chymhellion ariannol amrywiol. Er enghraifft, gall ysgolion dalu bonysau recriwtio os oes angen (ond, hyd y gwyddom, ni chaiff y rhain eu defnyddio'n aml iawn); mae bwrsarïau ar gael i'r rhai sy'n dilyn hyfforddiant mewn pynciau blaenoriaeth – mae'r rhain wedi'u nodi ym mharagraff 4.9.

Caiff data ar gyfraddau cadw athrawon, gan gynnwys athrawon sydd wedi gadael y proffesiwn yn ôl blynyddoedd o brofiad a chyrchfan, eu casglu fel rhan o ffurflenni'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a gyflwynir gan ysgolion bob mis Ionawr. Nid yw'r ffigurau yn y tablau canlynol yn cynnwys athrawon a adawodd y proffesiwn ar ôl cyrraedd yr oedran ymddeol arferol.

**Tabl 6 – Athrawon sy'n gadael y proffesiwn fesul sector (cyfrif pen), Cymru 2011-2018**


| | | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Athrawon sy'n gadael y proffesiwn | Pob ysgol* | 753 | 691 | 722 | 742 | 780 | 814 | 698 | 609 |
| | Cynradd | 322 | 345 | 356 | 369 | 377 | 382 | 364 | 326 |
| | Uwchradd | 431 | 336 | 360 | 369 | 387 | 422 | 321 | 266 |
| | | **2011/12** | **2012/13** | **2013/14** | **2014/15** | **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** | **2018/19** |
| Cyfanswm yr athrawon (cyfrif pen) | | 26,869 | 27,056 | 27,064 | 26,755 | 26,453 | 26,172 | 26,129 | 25,802 |
| Canran yr athrawon sy'n gadael** | | 2.8% | 2.6% | 2.7% | 2.8% | 2.9% | 3.1% | 2.7% | 2.4% |

*Mae pob ysgol yn cynnwys ysgolion meithrin, cynradd, canol, uwchradd ac arbennig
**Caiff canran yr athrawon sy'n gadael ei chyfrifo drwy rannu cyfanswm nifer yr athrawon sy'n gadael y proffesiwn mewn blwyddyn galendr â chyfanswm nifer yr athrawon ar ddyddiad cyfrifiad y mis Ionawr dilynol.

Ffynhonnell: CYBLD (Llywodraeth Cymru)
[Gweld y data]

Mae canran yr athrawon sy'n gadael y proffesiwn bob blwyddyn wedi aros yn weddol sefydlog ers 2011, gan amrywio rhwng 2.4 y cant a 3.1 y cant (Tabl 6).

**Siart 11 – Nifer yr athrawon sy'n gadael y proffesiwn yn ôl nifer y blynyddoedd o brofiad, Cymru 2018**





Ffynhonnell: CYBLD (Llywodraeth Cymru)

[Gweld y data]

Gwelwyd mai'r grŵp mwyaf o athrawon a adawodd y proffesiwn yn 2018 oedd y rhai â 0-5 mlynedd o brofiad, gan gyfrif am 19.4 y cant o'r athrawon hynny, ac yna'r rhai ag 16-20 mlynedd o brofiad, gan gyfrif am 17.2 y cant o'r athrawon hynny (Siart 11). Y grŵp lleiaf o athrawon a adawodd y proffesiwn oedd y rhai ag 21-25 mlynedd o brofiad, gan gyfrif am 11.3 y cant o'r athrawon hynny.

Mae Siart 12 yn dangos bod nifer yr athrawon sy'n gadael y proffesiwn yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ym mhob categori nifer y blynyddoedd o brofiad. Nid oes tuedd glir i'w gweld yn y rhan fwyaf o'r categorïau dros y 10 mlynedd diwethaf, ac eithrio athrawon ag 31+ mlynedd o brofiad, sydd wedi gostwng ers 2008.

**Siart 12– Nifer yr athrawon a adawodd y proffesiwn yn ôl nifer y blynyddoedd o brofiad, 2011-2018, Cymru**





Ffynhonnell: CYBLD (Llywodraeth Cymru)
[Gweld y data]

Mae nifer yr athrawon â 0-5 mlynedd o brofiad sy'n gadael y proffesiwn yn gymharol isel. Mae nifer y rhai sy'n gadael â 0-5 mlynedd o brofiad wedi amrywio dros y 10 mlynedd diwethaf o 160 ar ei uchaf yn 2016 i 79 ar ei isaf yn 2011. Nid yw'n ymddangos bod tueddiadau dros y blynyddoedd diwethaf yn datgelu unrhyw newid sylweddol yng nghyfraddau'r Athrawon Newydd Gymhwyso (ANGau) sy'n aros yn y proffesiwn.

Fel y dangosir yn Siart 12, yn 2018 y gyrchfan fwyaf cyffredin i athrawon a oedd yn gadael y proffesiwn yn y sectorau cynradd a chanol / uwchradd (ar ôl 'arall') oedd 'ymddeoliad cynnar', gan gyfrif am 31.9 y cant o'r rhai a adawodd y sector cynradd a 27.9 y cant o'r rhai a adawodd y sector uwchradd a chanol. Y gyfran isaf oedd y rhai a adawodd er mwyn gweithio yn y byd addysg ond nid fel athrawon, gan gyfrif am 6.7 y cant o'r rhai a adawodd y sector cynradd ac 11.7 y cant o'r rhai a adawodd y sector uwchradd a chanol.

**Siart 13 – Athrawon a adawodd y proffesiwn yn ôl cyrchfan, Cymru 2018**




Ffynhonnell: CYBLD (Llywodraeth Cymru)
[Gweld y data]

## 4.5 Swyddi gwag

Mae'r ystadegau diweddaraf a gyhoeddwyd ar swyddi addysgu a hysbysebwyd yng Nghymru yn dangos, rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2018 (fel y dangosir yn nhablau 7 ac 8):

- bod 769 o swyddi gwag athrawon wedi cael eu hysbysebu ar gyfer ysgolion cynradd a bod 14.9 o geisiadau wedi cael eu cyflwyno fesul swydd ar gyfartaledd.
- bod swyddi cyfrwng Saesneg mewn ysgolion cynradd wedi denu 18.6 o geisiadau fesul swydd ar gyfartaledd a bod swyddi cyfrwng Cymraeg wedi denu 7.6 o geisiadau fesul swydd ar gyfartaledd.
- bod 793 o swyddi gwag athrawon wedi cael eu hysbysebu ar gyfer ysgolion uwchradd (gan gynnwys ysgolion canol) a bod 7.3 o geisiadau wedi cael eu cyflwyno fesul swydd ar gyfartaledd.
- bod swyddi cyfrwng Saesneg mewn ysgolion uwchradd wedi denu 8.5 o geisiadau fesul swydd ar gyfartaledd a bod swyddi cyfrwng Cymraeg wedi denu 2.9 o geisiadau ar gyfartaledd.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y ceisiadau fesul swydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Saesneg wedi lleihau'n raddol, ond bu cynnydd yn nifer y ceisiadau ar gyfer swyddi cyfrwng Cymraeg ar gyfer y sector cynradd yn 2018.

Ar ôl cynnydd rhwng 2016 a 2017, bu lleihad yn nifer y swyddi a hysbysebwyd yn y cyfnod cynradd yn gyffredinol yn 2018. Cyrhaeddodd nifer y swyddi cyfnod uwchradd a chyfrwng Saesneg anterth yn 2013, a gwelwyd tuedd gynyddol arall ar ôl gostyngiadau yn 2014 ac unwaith eto yn 2018. Cyrhaeddodd nifer y swyddi cyfrwng Cymraeg anterth yn 2013 ond mae nifer y swyddi wedi aros yn gymharol debyg ers hynny.

**Tabl 7 - Nifer y swyddi addysgu a hysbysebwyd a cheisiadau fesul swydd mewn ysgolion a gynhelir, yn ôl cyfnod (Cymru)**

| | | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynradd** | Nifer y swyddi a hysbysebwyd | 653 | 787 | 728 | 785 | 795 | 782 | 848 | 769 |
| | Ceisiadau fesul swydd | *25.6* | *24.5* | *18.1* | *17.6* | *16.0* | *14.1* | *15.5* | *14.9* |
| **Uwchradd a Chanol** | Nifer y swyddi a hysbysebwyd | 692 | 898 | 1,021 | 752 | 830 | 881 | 963 | 793 |
| | Ceisiadau fesul swydd | *14.8* | *11.8* | *8.4* | *9.8* | *8.9* | *8.4* | *7.6* | *7.3* |
| **Pob Swydd** | Nifer y swyddi a hysbysebwyd | 1,345 | 1,685 | 1,749 | 1,537 | 1,625 | 1,663 | 1,811 | 1,562 |
| | Ceisiadau fesul swydd | *20.0* | *17.7* | *12.4* | *13.8* | *12.4* | *11.1* | *11.3* | *11.1* |

Ffynhonnell: CYBLD (Llywodraeth Cymru)
[Gweld y data]

**Tabl 8 – Nifer y swyddi addysgu a hysbysebwyd a cheisiadau fesul swydd mewn ysgolion a gynhelir, yn ôl cyfrwng (Cymru)**

| | | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfrwng Cymraeg** | Nifer y swyddi a hysbysebwyd | 309 | 408 | 517 | 416 | 406 | 455 | 441 | 421 |
| | Ceisiadau fesul swydd | *9.3* | *8.9* | *6.9* | *6.3* | *6.1* | *5.5* | *5.8* | *5.8* |
| **Cyfrwng Saesneg** | Nifer y swyddi a hysbysebwyd | 1,036 | 1,277 | 1,232 | 1,121 | 1,219 | 1,208 | 1,370 | 1,141 |
| | Ceisiadau fesul swydd | *23.2* | *20.5* | *14.8* | *16.6* | *14.5* | *13.1* | *13.1* | *13.0* |


Ffynhonnell: CYBLD (Llywodraeth Cymru)

[Gweld y data]

Mae Siart 13 a Siart 14 yn dangos y tueddiadau mewn ceisiadau cyfartalog fesul swydd ers 2011 yn ôl cyfnod a chyfrwng. Ym mhob cyfnod a chyfrwng, mae nifer cyfartalog y ceisiadau fesul swydd yn lleihau. Mae swyddi cyfrwng Cymraeg yn denu nifer cyfartalog is o geisiadau fesul swydd na swyddi cyfrwng Saesneg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae swyddi cynradd yn denu nifer cyfartalog uwch o geisiadau fesul swydd na swyddi uwchradd.


Ystyriwyd y ffigurau hyn wrth gynllunio targedau/niferoedd derbyn ar gyfer AGA (gweler paragraff 4.8 isod).

**Siart 14 - Nifer cyfartalog y ceisiadau fesul swydd addysgu a hysbysebwyd mewn ysgolion cynradd a gynhelir, yn ôl y cyfrwng addysgu (Cymru, 2011-2018)**




Ffynhonnell: CYBLD (Llywodraeth Cymru)

**Siart 15 – Nifer cyfartalog y ceisiadau fesul swydd addysgu a hysbysebwyd mewn ysgolion uwchradd a gynhelir, yn ôl y cyfrwng addysgu (Cymru, 2011-2018)**




Ffynhonnell: CYBLD (Llywodraeth Cymru)

### 4.6 Swyddi gwag i benaethiaid

Mae Tabl 9 yn dangos nifer y swyddi i benaethiaid a hysbysebwyd, nifer y ceisiadau a gyflwynwyd a nifer y ceisiadau a gyflwynwyd fesul swydd ers 2011. Mae nifer cyfartalog y ceisiadau fesul swydd yn dangos tuedd amrywiol, gan leihau o 29.5 yn 2012 i 5.6 yn 2016 cyn cynyddu i 25.0 yn 2018.

*Dim ond swyddi penaethiaid mewn ysgolion uwchradd heb unrhyw ymrwymiadau addysgu y mae'r ffigurau yn eu cynnwys.*

**Tabl 9 – Nifer y swyddi i benaethiaid a hysbysebwyd, nifer y ceisiadau a gyflwynwyd a nifer y ceisiadau a gyflwynwyd fesul swydd mewn ysgolion a gynhelir (Cymru, 2018)**

| Swyddi arwain | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y swyddi a hysbysebwyd** | 4 | 10 | 24 | 10 | 16 | 11 | 22 | 4 |
| **Nifer y ceisiadau** | 106 | 295 | 451 | 185 | 154 | 62 | 271 | 100 |
| **Ceisiadau fesul swydd** | *26.5* | *29.5* | *18.8* | *18.5* | *9.6* | *5.6* | *12.3* | *25.0* |

Ffynhonnell: CYBLD (Llywodraeth Cymru)

Bydd angen i unrhyw un sy'n dymuno cael ei ystyried ar gyfer swydd Pennaeth fod wedi cwblhau'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP). Dros y blynyddoedd diwethaf mae nifer yr ymgeiswyr wedi cynyddu ond, yn 2019/20, 173 o ymgeiswyr a ymgymerodd â'r cymhwyster, sef lleihad bach o gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i gyfyngu nifer yr ymgeiswyr i 180. Cwblhaodd 213 o ymgeiswyr raglen 2018/19. O blith yr ymgeiswyr hynny, llwyddodd 167 (78%) i gyrraedd y safonau arweinyddiaeth broffesiynol a phenderfynwyd nad oedd 46 (22%) wedi cyrraedd y safonau eto. Roedd hyn yn ostyngiad o 7% o gymharu â'r gyfradd llwyddo yn 2017-18, sef 85%.

Fodd bynnag, mae'r rhaglen CPCP wedi cael ei hestyn wrth i'r agweddau datblygiadol ar y rhaglen gael eu hardystio gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol. Mae Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid yn gwneud rhagor o waith mewn perthynas â niferoedd yr ymgeiswyr ar gyfer y rhaglen yn y dyfodol er mwyn sicrhau y caiff system fwy cywir ei datblygu i nodi'r galw, ac mae gwaith ar lwyddiant y rhaglen yn cael ei ddatblygu ymhellach er mwyn deall cynnydd. Mae'r CPCP yn rhan o gyfres o raglenni i gefnogi datblygiad arweinwyr o Uwch-reolwyr i Benaethiaid Profiadol. Wrth recriwtio, mae rhaglen y CPCP yn targedu'r rhai a fydd yn barod i fod yn benaethiaid o fewn y ddwy flynedd nesaf. Ar gyfer 2019/20, gwnaeth Llywodraeth Cymru gyfyngu ar nifer yr ymgeiswyr i 180.

### 4.7 Galw

#### Amcanestyniadau disgyblion yng Nghymru

Mae amcanestyniadau disgyblion yn seiliedig ar boblogaeth ysgolion Cymru ym mis Ionawr 2018 yn ôl y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a'r tueddiadau a awgrymir gan amcanestyniadau canol blwyddyn 2016 o boblogaeth Cymru a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Er mwyn llunio'r amcanestyniadau ysgolion, tybir y bydd cyfraddau cyfranogi pob grŵp oedran a phob math o ysgol yn aros yn gyson.

Rhagamcanir y bydd niferoedd disgyblion cynradd yn lleihau o 266,550 yn 2018 i 255,309 yn 2025 cyn cynyddu ychydig i 256,779 yn 2028.

Dros yr un cyfnod, disgwylir i nifer y disgyblion uwchradd gynyddu o 180,402 yn 2018 i lefel frig o 200,920 yn 2024 – cynnydd o 20,518 o ddisgyblion. Yna, rhagamcanir y bydd niferoedd disgyblion uwchradd yn lleihau'n raddol i 195,720 yn 2028.

Gallai hyn arwain at fwy o alw am athrawon uwchradd dros yr ychydig flynyddoedd nesaf mewn rhai rhannau o Gymru.

**Tabl 10 – Nifer rhagamcanol y disgyblion cyfwerth ag amser llawn mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a phob ysgol a gynhelir, Cymru 2018-2028.**


*(miloedd)*

| | 2018 (gwirioneddol) | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd a Gynhelir | 266.5 | 266.4 | 264.7 | 262.9 | 260.4 | 257.8 | 256.0 | 255.3 | 255.4 | 255.9 | 256.8 |
| Uwchradd a Gynhelir | 180.4 | 183.7 | 188.1 | 192.1 | 195.8 | 199.1 | 200.9 | 200.8 | 199.9 | 198.2 | 195.7 |
| Pob Ysgol a Gynhelir* | 452.3 | 455.4 | 458.2 | 460.4 | 461.7 | 462.4 | 462.4 | 461.6 | 460.9 | 459.5 | 458.0 |

***Yn cynnwys** ysgolion meithrin, cynradd, canol, uwchradd ac arbennig a gynhelir, ond **heb gynnwys** ysgolion annibynnol.

[Gweld y data]

**Siart 16 – Nifer rhagamcanol y disgyblion mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd a gynhelir yng Nghymru, miloedd**




## 4.8 Targedau derbyn Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)

Mae gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol i'w chwarae o ran rheoli'r cyflenwad o athrawon ar gyfer ysgolion a gynhelir yng Nghymru drwy ragweld y galw am athrawon newydd gymhwyso drwy bennu lefelau recriwtio dymunol ar gyfer cyrsiau AGA achrededig yng Nghymru. Yn dilyn sawl adroddiad allweddol ar y system AGA yng Nghymru, gan gynnwys, yn fwyaf diweddar, adroddiad annibynnol yr Athro Furlong, Addysgu Athrawon Yfory[6], mae AGA yng Nghymru wedi bod drwy gyfnod sylweddol o ddiwygio. Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom gadw'r niferoedd derbyn ar gyfer AGA yn sefydlog am nifer o flynyddoedd ar ôl cyfnod o leihad sylweddol, er mwyn diwallu anghenion ysgolion yng Nghymru yn well. Penderfynwyd codi'r mesurau hyn i gadw'r niferoedd derbyn yn sefydlog ar gyfer rhaglenni AGA, gan ddechrau ym mlwyddyn academaidd 2019/20.

Caiff niferoedd derbyn eu pennu'n flynyddol ar sail y galw rhagamcanol am athrawon newydd gymhwyso. Ar gyfer blynyddoedd academaidd blaenorol hyd at ac yn cynnwys blwyddyn academaidd 2018/19, cyflwynwyd y rhain i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), a fyddai, yn ei dro, yn hysbysu'r Canolfannau AGA am eu dyraniad fesul cyfnod, pwnc a lefel astudio. O dan y Diwygiadau i AGA, mae Cyngor y Gweithlu

[6] https://gweddill.gov.wales/topics/educationandskills/publications/wagreviews/teaching-tomorrows-teachers/?skip=1&lang=cy

Addysg bellach yn gyfrifol am ddyrannu fesul cyfnod, pwnc a lefel astudio fel rhan o'i swyddogaethau achredu[7].

Caiff lefel gyffredinol niferoedd derbyn ar gyfer AGA ei phennu'n flynyddol gan Lywodraeth Cymru ar sail y galw a ragwelir am athrawon a gyfrifir gan Fodel Cynllunio a Chyflenwi Athrawon Cymru (gweler isod). Caiff Cyngor y Gweithlu Addysg ei hysbysu am y dyraniadau yn gynnar yn yr hydref fel y gellir eu rhannu â'r Canolfannau AGA achrededig. Mae'r dyraniadau diweddaraf a gyhoeddwyd yn cyfeirio at y niferoedd derbyn ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21[8].

**Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon**

Cafodd y Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon ei gyflwyno yn 2007/08 ar ôl Adolygiad annibynnol o AGA yng Nghymru yn 2006[9], ac mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio i ragweld y galw am athrawon newydd gymhwyso mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'n modelu nifer yr athrawon newydd gymhwyso sydd eu hangen ar y sector ysgolion a gynhelir yng Nghymru fesul cyfnod ysgol ar sail newidiadau mewn niferoedd disgyblion a throsiant athrawon. Caiff y model ei ddiweddaru bob blwyddyn i adlewyrchu newidiadau mewn ffigurau gwirioneddol a rhagamcanol.

Rhwng 2004/05 a 2016/17 mae niferoedd derbyn wedi lleihau tua thraean – ar sail allbynnau'r Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon ac ystyriaethau polisi gan gynnwys tystiolaeth bod gorgyflenwad sylweddol o athrawon cymwysedig[10]. Drwy ddefnyddio'r model, llwyddwyd i reoli'r gorgyflenwad ac mae nifer yr athrawon newydd gymhwyso yn cyfateb yn well i'r galw. Ers nifer o flynyddoedd, mae'r niferoedd derbyn ar gyfer AGA wedi aros yn gyson er mwyn rhoi sefydlogrwydd i'r sector AGA yn ystod y diwygiadau i AGA. Penderfynwyd codi'r mesurau hyn i gadw'r niferoedd derbyn yn sefydlog ar gyfer dyraniadau Partneriaethau AGA achrededig newydd ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20.

Ochr yn ochr â'r gwaith i ddatblygu a gweithredu'r broses newydd ar gyfer Achredu AGA, cynhaliwyd adolygiad o'r Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon yn 2017 er mwyn rhoi mwy o eglurder ynghylch sut y caiff targedau derbyn eu pennu a gwella swyddogaethau'r Model fel y gellir ymchwilio i effaith newidiadau mewn rhagdybiaethau allweddol ar yr angen am athrawon a'r targedau a bennir.

Ar hyn o bryd, nid ydym yn cynnwys niferoedd derbyn ar wahân ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg gan mai nifer cymharol fach o leoedd sydd ar gael ar y cyfan. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg

[7] Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) (Diwygio) 2017

[8] https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/achredu/achredu-aga/targedau-derbyn-aga.html

[9] *Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru. Adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru.* Furlong, John; Hagger, Hazel; Butcher, Cerys; Howson, J.

[10] *Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru. Adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru.* Furlong, John; Hagger, Hazel; Butcher, Cerys; Howson, J. 2006.

addas ar gael ledled Cymru. Yn ogystal â CCAUC yn monitro'r sefyllfa mewn perthynas â'r niferoedd sy'n manteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac yn cyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru yn unol â hynny, rydym wedi cynghori Cyngor y Gweithlu Addysg, fel rhan o'i brosesau monitro ar gyfer statws achrededig ym mlwyddyn academaidd 2020/21, fod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Bartneriaethau weithio tuag at sicrhau bod 30% o'r rhai a gaiff eu recriwtio i bob rhaglen AGA fod yn athrawon dan hyfforddiant sy'n dysgu sut i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn parhau i adolygu'r Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon er mwyn sicrhau y caiff y data sydd ar gael eu defnyddio lle y bo'n bosibl i lywio gwaith cynllunio ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg.

### Cyflenwad dymunol o athrawon newydd Addysg Gychwynnol i Athrawon – Blwyddyn Academaidd 2020/21

**Tabl 11 – Cyflenwad dymunol o athrawon newydd AGA ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21**

| Cyflenwad dymunol o athrawon newydd 2020/21 | Israddedig | Ôl-raddedig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Cynradd | 289 | 435 | 724 |
| Uwchradd | | | 1,003 |
| **Cyfanswm** | | | **1,727** |

Mae amcanestyniad sylfaenol gan y Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon ar gyfer y cyfnod rhwng 2019/20 a 2027/28, gan ddefnyddio data wedi'u diweddaru, yn dangos, pe na fyddai unrhyw newid o ran niferoedd, na fyddai gorgyflenwad o newydd-ddyfodiaid AGA cynradd nac uwchradd. Bydd cynyddu nifer y newydd-ddyfodiaid yn y proffesiwn yn helpu i gynnal cymarebau disgyblion:athrawon a lleihau dibyniaeth ar y rhai sy'n ailymuno â'r proffesiwn. Cyfeiriwch at Adran 4.5, Tabl 7 – Nifer y swyddi addysgu a hysbysebwyd a'r ceisiadau fesul swydd mewn ysgolion a gynhelir, yn ôl cyfnod (Cymru).

Y cyfnod cynradd:

- Ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21 mae'r Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon yn awgrymu lleihad graddol yng nghyfanswm nifer y newydd-ddyfodiaid addysgu cynradd sydd eu hangen drwy bob llwybr o 1,142 yn 2020/21

i 1,045 yn 2022/23. Yn dilyn hyn, rhagwelir y bydd y nifer yn dechrau cynyddu i 1,194 erbyn 2027/28.

Y cyfnod uwchradd:

- Disgwylir i gyfanswm nifer y dechreuwyr addysgu uwchradd sydd eu hangen drwy bob llwybr leihau ychydig o 1,472 yn 2020/21 i 1,467 yn 2021/22. Yn dilyn hyn, rhagwelir y bydd y nifer yn lleihau'n raddol i 1,077 o ddechreuwyr yn 2027/28.

Yn y sector uwchradd,  mae tueddiadau dros y pum mlynedd diwethaf wedi arwain at ddibyniaeth gynyddol ar ailddechreuwyr. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i lefel isel iawn o hyfforddeion newydd ynghyd â chyfraddau goroesi isel ymhlith israddedigion.

Rydym yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg addas ar gael ledled Cymru. Mae nifer cyfartalog yr ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg am swyddi yn isel o gymharu â nifer yr ymgeiswyr cyfrwng Saesneg (gweler adran 4.5).

**Dyraniadau Cyngor y Gweithlu Addysg ar gyfer darparwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon 2020/21**

Daw'r niferoedd derbyn o amcanestyniadau Llywodraeth Cymru o'r galw am athrawon newydd gymhwyso, y mae'n rhaid i Gyngor y Gweithlu Addysg, wrth gyflawni ei swyddogaethau, eu hystyried o dan *Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2017.*

Wrth ddyrannu'r targedau derbyn ar gyfer 2020/21 i'r rhaglenni AGA sydd newydd eu hachredu, rhaid i Gyngor y Gweithlu Addysg wneud hynny gan ddefnyddio methodoleg a luniwyd ar sail dull teg a chyfartal o bennu targedau rhanbarthol fesul cyfnod, rhanbarth ac iaith ac, ar gyfer y sector uwchradd, fesul arbenigedd pwnc. Dylai hyn fod yn seiliedig ar fethodoleg gadarn a thechnegau ystadegol. Mae angen cyfiawnhau'r dyraniadau ac mae'n rhaid sicrhau eu bod yn gadarn yn wyneb her neu waith craffu annibynnol.

Mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn cyfrifo dyraniadau ar gyfer rhaglenni pob Partneriaeth AGA unigol ac yn eu cyflwyno yn ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth ddyledus i'r cyflwyniad ac yn ymateb i'r Cyngor. Ar ôl i'r dyraniadau gael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn hysbysu'r Partneriaethau AGA amdanynt. Ar adeg paratoi'r cyngor hwn, cytunwyd ar niferoedd derbyn ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21 gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.[11]

Gan ddilyn cyngor gan Gyngor y Gweithlu Addysg, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno y bydd y niferoedd derbyn a ddyrennir i'r rhaglenni AGA sydd newydd eu hachredu yn cael eu cynnal ar lefel o 80% o leiaf am gyfnod yr achrediad. Dylid nodi

[11] https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/achredu-aga/targedau-derbyn-aga.html

bod hyn yn dibynnu ar eu gallu i barhau i gydymffurfio â'r meini prawf achredu, a chyflawni o leiaf 80% o'r targed recriwtio. Os na fydd y Partneriaethau AGA newydd yn cyrraedd y targed recriwtio hwn, caiff eu niferoedd eu hadolygu bob blwyddyn a gallai'r niferoedd hynny gael eu hailddyrannu i bartneriaethau eraill yn unol â hynny. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi penderfynu, os bydd partneriaeth yn recriwtio mwy na 80% o'r niferoedd a ddyrennir iddi, y gellir ystyried rhoi dyraniad uwch iddi mewn blynyddoedd dilynol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau sefydlogrwydd yn y sector yn ystod y cyfnod pontio hwn ac yn galluogi sefydliadau i fuddsoddi a gwneud gwaith cynllunio hirdymor.

Anogir Partneriaethau AGA i fynd uwchlaw eu niferoedd derbyn (ac eithrio yn achos TAR Addysg Gorfforol) lle y gallant wneud hynny o fewn paramedrau rhesymol a bennir yn ôl disgresiwn Llywodraeth Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg.

Nid yw rhaglenni TAR Rhan Amser na TAR Cyflogedig Y Brifysgol Agored sydd newydd eu hachredu wedi'u cynnwys yn y broses hon ar hyn o bryd gan fod eu lefelau recriwtio'n cael eu pennu o dan gontract llwybrau amgen Y Brifysgol Agored a Llywodraeth Cymru. Mae'r niferoedd recriwtio o dan y contract yn drosiannol wrth i'r ddarpariaeth gael ei chyflwyno ac wrth i'r galw yn y farchnad ddatblygu.

### 4.9 Cymhellion ariannol i ddenu athrawon newydd

Er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynghylch recriwtio athrawon i addysgu pynciau penodol, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cymhellion i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau AGA ôl-raddedig. Caiff y cymhellion eu hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar gynlluniau yn y dyfodol ar gyfer recriwtio a chadw'r athrawon o ansawdd uchel sydd eu hangen arnom i gefnogi ein diwygiadau i'r system addysg yng Nghymru.

#### Cymhellion ar gyfer pynciau blaenoriaeth[12]

Ar gyfer myfyrwyr cymwys newydd sy'n dechrau cyrsiau AGA ôl-raddedig ym mlwyddyn academaidd 2020/21, mae cymhellion o hyd at £20,000 ar gael mewn mathemateg, ffiseg, cemeg a Chymraeg neu TGCh.

Bydd myfyrwyr ôl-raddedig cymwys sydd â gradd dosbarth cyntaf (a/neu radd Meistr neu PhD) yn cael y lefelau cyllido uchaf, gyda'r lefelau yn gostwng fesul cam ar gyfer y rhai â gradd 2.1 neu 2.2. Bydd cymhellion o hyd at £15,000 ar gael i fyfyrwyr cymwys newydd sy'n astudio ieithoedd tramor modern. Unwaith eto, bydd myfyrwyr ôl-raddedig

[12] https://llyw.cymru/cymhellion-hyfforddi-athrawon-yng-nghymru-canllawiau-ar-gyfer-myfyrwyr-blwyddyn-academaidd-2019

cymwys sydd â gradd dosbarth cyntaf (a/neu radd Meistr neu PhD) yn cael y lefelau cyllido uchaf a bydd swm is ar gael i'r rhai â gradd 2.1.

Y tu allan i'r pynciau blaenoriaeth, dim ond i fyfyrwyr sydd â gradd dosbarth cyntaf y mae Llywodraeth Cymru yn cynnig grantiau cymell (£3,000). Ar y cyd â'r grant cymell ar gyfer eu gradd dosbarth cyntaf (£3,000) cynigir taliad atodol arall i fyfyrwyr cynradd sydd wedi ennill eu gradd dosbarth cyntaf mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg, ffiseg neu gemeg (£3,000 arall).

**Cynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory[13]**


Mae cymhellion ariannol ar gael i'r rhai sy'n dechrau addysg gychwynnol athrawon ac sy'n bwriadu addysgu Cymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cymhelliant cyfrwng Cymraeg Iaith Athrawon Yfory (IAY) o £5,000 gyda swm o £2,500 yn daladwy ar ôl ennill SAC a swm arall o £2,500 yn daladwy ar ôl cwblhau cyfnod sefydlu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, neu ar ôl cwblhau cyfnod sefydlu yn addysgu Cymraeg mewn unrhyw leoliad uwchradd.

Mae'n bosibl y bydd rhai myfyrwyr AGA yn gymwys i gael y Cymhelliant ar gyfer Pwnc Blaenoriaeth a chymhelliant IAY a chael y lefel uchaf o gyllid, sef £25,000.

### 4.10 Ansawdd newydd-ddyfodiaid / gofynion mynediad sylfaenol ar gyfer AGA

**Siart 17 – Dosbarth gradd myfyrwyr cymwysedig ar gyrsiau AGA, heblaw am TAR, yng Nghymru yn 2017/18**




*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

[Gweld y data]

Ym mlwyddyn academaidd 2016/17, enillodd 12% (30) o fyfyrwyr cymwysedig yng Nghymru Radd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu i 18% (90) o fyfyrwyr cymwysedig yng Nghymru yn ennill gradd addysgu Anrhydedd Dosbarth

[13] https://llyw.cymru/cynllun-cymhelliant-iaith-athrawon-yfory-blwyddyn-academaidd-2019-i-2020

Cyntaf ym mlwyddyn academaidd 2017/18. Ym mlwyddyn academaidd 2016/17, enillodd tua 6 o bob 10 o bobl a gymhwysodd â gradd addysgu yng Nghymru Radd Anrhydedd Ail Ddosbarth Uwch (2-1). Cynyddodd y ffigur hwn ym mlwyddyn academaidd 2017/18 i tua 7 o bob 10 o bobl a gymhwysodd â gradd addysgu yng Nghymru yn ennill Gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth Uwch (2-1) neu uwch.

O fis Medi 2019, dyma'r gofynion mynediad sylfaenol statudol ar gyfer pob llwybr i Statws Athro Cymwysedig yng Nghymru:

- TGAU Gradd B neu uwch (neu gymhwyster cyfatebol) mewn Mathemateg neu Fathemateg-Rhifedd
- TGAU Gradd B neu uwch (neu gymhwyster cyfatebol) mewn naill ai Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg, Cymraeg Iaith neu Lenyddiaeth Gymraeg. Lle y cyflawnir cymhwyster sy'n cyfateb i radd B mewn naill ai Lenyddiaeth Saesneg neu Lenyddiaeth Gymraeg, mae'n rhaid cyflawni gradd C (neu gymhwyster cyfatebol) o leiaf yn yr arholiadau TGAU cyfatebol mewn Saesneg neu Gymraeg Iaith
- TGAU gradd C neu uwch (neu gymhwyster cyfatebol) mewn gwyddoniaeth os bydd unigolyn yn dymuno hyfforddi i addysgu mewn ysgol gynradd

Gall darparwyr AGA ychwanegu eu gofynion mynediad eu hunain hefyd.

Os nad oes gan unigolion y cymwysterau hyn, mae'r gofyniad yn rhoi disgresiwn i'r darparwr AGA ystyried p'un a ellir rhoi cyfle i ymgeiswyr eithriadol ddangos y gallant gyrraedd y safon ofynnol drwy sefyll prawf cyfwerthedd.

Er bod Llywodraeth Cymru yn pennu'r gofynion mynediad sylfaenol statudol ar gyfer cyrsiau AGA, gall darparwyr AGA bennu safonau unigol uwchlaw'r gofynion sylfaenol hyn ar gyfer eu cyrsiau.

Mae athrawon cynradd yn addysgu pob pwnc o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Cymraeg, mathemateg, gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, daearyddiaeth, hanes, addysg gorfforol, celf, cerddoriaeth, addysg grefyddol a Saesneg). Dylai addysg flaenorol hyfforddeion (gradd, Safon Uwch a chymwysterau cyfatebol) gyfateb i un o'r pynciau hyn o leiaf.

### 4.11 Lefelau Recriwtio yn erbyn Targedau Derbyn AGA

### Rhaglen Athrawon Graddedig (Cynllun cyflogaeth (yn yr ysgol))

**Tabl 12 – Lefelau Recriwtio'r Rhaglen Athrawon Graddedig yn erbyn y targedau ar gyfer blynyddoedd academaidd 2013/14 i 2018/19**

| | 2013/14 | | 2014/15 | | 2015/16 | | 2016/17 | | 2017/18 | | 2018/19 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Targed | Gwirioneddol | Targed | Gwirioneddol | Targed | Gwirioneddol | Targed | Gwirioneddol | Targed | Gwirioneddol | Targed | Gwirioneddol |
| **Cynradd** | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 28 | 36 | 36 | 36 | 37 | 36 | 32 |
| **Uwchradd** | 30 | 11 | 12 | 12 | 12 | 12 | 21 | 21 | 36 | 36 | 36 | 36 |
| **Heb eu cyllido** | - | 14 | 9 | 10 | 18 | 10 | 18 | 13 | 18 | 14 | 18 | 16 |
| Cyfanswm | - | 55 | 51 | 52 | 60 | 50 | 75 | 71 | 90 | 87 | 90 | 84 |

Ar gyfer blwyddyn academaidd 2016/17, roedd 75 o leoedd ar gael ar y Rhaglen Athrawon Graddedig yng Nghymru a chafodd 71 ohonynt eu llenwi. Cynyddodd y lleoedd ar y Rhaglen Athrawon Graddedig i 90 ym mlwyddyn academaidd 2017/18 a chafodd 87 ohonynt eu llenwi. Parhaodd nifer y lleoedd ar y lefel hon ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19, gyda 36 o leoedd uwchradd, 36 o leoedd cynradd a 18 o leoedd heb eu hariannu. O ganlyniad i'r diwygiadau parhaus i AGA mewn perthynas â llwybrau amgen i addysgu, penderfynwyd lleihau nifer y lleoedd ar y Rhaglen Athrawon Graddedig ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20 i 32 o leoedd uwchradd, 20 o leoedd cynradd ac 20 o leoedd heb eu hariannu, a dyma'r flwyddyn olaf y bydd y Rhaglen ar gael.

### Rhaglenni AGA amser llawn a arweinir gan Brifysgolion


Mae targedau derbyn ar gyfer rhaglenni AGA cynradd wedi aros yn sefydlog ers 2011/12 hyd at allbwn y Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20 lle mae'r targed derbyn 54 o leoedd yn is. Lleihaodd targedau derbyn ar gyfer rhaglenni AGA uwchradd rhwng 2009/10 a 2013/14 ac ers hynny maent wedi aros yn sefydlog hyd at allbwn diweddar y Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20 lle mae'r targed 135 o leoedd yn uwch.

Mae lefelau recriwtio o gymharu â'r targed ar gyfer cyrsiau AGA cynradd israddedig ac ôl-raddedig wedi bod yn gyson uchel. Mae lefelau recriwtio ar gyfer cyrsiau uwchradd israddedig yn parhau i fod yn isel. Fodd bynnag, mae'r cyrsiau hyn yn cyfrif am tua 5% o'r holl leoedd AGA addysg uwch a oedd ar gael yn 2017/18.

Mae ffurflenni ystadegol dros dro gan ddarparwyr unigol yn dangos bod lefelau recriwtio cyffredinol yn erbyn y targed wedi gostwng 4.9 pwynt canran (60 o leoedd) rhwng 2016/17 a 2017/18.

Caiff data Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) sy'n dangos nifer y cofrestriadau terfynol ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19 eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2020.

**Siart 18 – Dechreuwyr a thargedau ar gyfer cyrsiau AGA yng Nghymru: blynyddoedd academaidd 2007/08 i 2017/18**




*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

**Tabl 13 – Lefel yr ysgol a'r math o radd ar gyfer dechreuwyr cyrsiau AGA yng Nghymru yn erbyn y targedau**

| Ysgol Gynradd | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|
| TAR | 465 | 465 | 440 | 425 | 430 |
| Radd Arall | 300 | 290 | 270 | 270 | 245 |
| Cyfanswm Ysgol Gynradd | 765 | 760 | 710 | 700 | 670 |
| Targed Ysgolion Cynradd | 750 | 750 | 750 | 750 | 750 |
| | | | | | |
| Ysgol Uwchradd | | | | | |
| TAR | 820 | 695 | 560 | 530 | 495 |
| Radd Arall | 65 | 45 | 35 | 20 | 35 |
| Ysgol Uwchradd Cyfanswm | 885 | 740 | 600 | 545 | 525 |
| Targed Ysgol Uwchradd | 880 | 880 | 880 | 871 | 871 |
| | | | | | |
| Cyfanswm Ymrestriadau | 1,650 | 1,500 | 1,310 | 1,245 | 1,200 |
| Cyfanswm Targed | 1,630 | 1,630 | 1,630 | 1,621 | 1,621 |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyriwr HESA*

[Gweld y data]

Ym mlwyddyn academaidd 2017/18 y targed ar gyfer cyrsiau cynradd oedd 750, a chofrestrodd 670 o fyfyrwyr, (11%) yn is na'r targed. Roedd nifer y myfyrwyr AGA cynradd yn uwch na'r targed (750) ym mlwyddyn academaidd 2013/14 a blwyddyn academaidd 2014/15, ond bu lleihad yn y nifer hwn dros y tair blynedd nesaf. Yn erbyn yr un targed ar gyfer 2018/19 a tharged is o 696 ar gyfer 2019/20, awgryma data cychwynnol heb eu dilysu gan ddarparwyr unigol fod y niferoedd yn parhau i leihau islaw'r targed a'u bod yn is na lefelau 2017/18.

Mae cyfanswm nifer y myfyrwyr AGA uwchradd wedi bod yn lleihau ers rhai blynyddoedd, ond bu'n fwy sefydlog dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Ar gyfer 2017/18, roedd nifer y myfyrwyr uwchradd a dderbyniwyd yn cyfateb i ddim ond 60% o'r lefel darged.

**Tabl 14 – Lefelau recriwtio ôl-raddedigion ar sail pwnc yn erbyn y targed: Blwyddyn Academaidd 2017/18**

| | Targed | Cyfanswm myfyrwyr ar y cwrs | % Recriwtio i'r targed |
|---|---|---|---|
| Cynradd | 450 | 430 | 96 |
| Cyfanswm Uwchradd | 785 | 495 | 63 |
| Mathemateg | 77 | 45 | 58 |
| Cemeg | 43 | 20 | 47 |
| Ffiseg | 31 | 15 | 48 |
| Ieithoedd Modern | 74 | 30 | 41 |
| Cymraeg | 48 | 20 | 42 |
| Technoleg Gwybodaeth | 40 | 20 | 50 |
| Celf a Dylunio | 45 | 10 | 22 |
| Bioleg a Gwyddorau Cyfannol | 68 | 40 | 59 |
| Drama | 22 | 20 | 91 |
| Astudiaethau Busnes | 13 | 10 | 77 |
| Dylunio a Thechnoleg | 52 | 35 | 67 |
| Saesneg | 81 | 60 | 74 |
| Daearyddiaeth | 32 | 25 | 78 |
| Hanes | 42 | 45 | 107 |
| Cerddoriaeth | 27 | 15 | 56 |
| Gweithgareddau Awyr Agored | 5 | | 0 |
| Addysg Gorfforol | 53 | 60 | 113 |
| Addysg Grefyddol | 32 | 25 | 78 |
| Cyfanswm | 1,235 | 925 | 75 |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyriwr HESA*

**Tabl 15 – Lefelau recriwtio israddedigion ar sail pwnc yn erbyn y targed: Blwyddyn Academaidd 2017/18**

| | | Targed | Nifer o fyfyrwyr ar y cwrs | % Recriwtio i'r targed |
|---|---|---|---|---|
| Cynradd | | 300 | 245 | 82 |
| Uwchradd | | | | |
| | Mathemateg | 22 | 10 | 45 |
| | Gwyddoniaeth | 11 | 5 | 45 |
| | Dylunio a Thechnoleg | 33 | 10 | 30 |
| | Cymraeg | 10 | 5 | 50 |
| | Cerddoriaeth | 10 | 5 | 50 |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyriwr HESA*

Gwyddoniaeth, Mathemateg a Saesneg oedd y pynciau mwyaf cyffredin ar gyfer pobl a oedd yn hyfforddi i fod yn athrawon ysgol uwchradd yng Nghymru. Er mai Gwyddoniaeth oedd y grŵp mwyaf poblogaidd o bynciau yn gyffredinol, yn unigol, roedd Ffiseg, Cemeg a Gwyddoniaeth Gyffredinol oll yn hanner isaf y pynciau a astudiwyd.

## Y gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae myfyriwr yr ystyrir ei fod yn hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg naill ai'n dilyn cwrs sy'n arwain at dystysgrif addysg ddwyieithog, neu'n dilyn cwrs sy'n galluogi myfyrwyr i addysgu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gall siaradwyr Cymraeg rhugl fynd ymlaen i addysgu yn Gymraeg p'un a oedd eu cwrs wedi'i lunio at y diben hwnnw ai peidio.

**Tabl 16 – Y rhai a ddechreuodd gyrsiau AGA yng Nghymru yn ôl iaith y cwrs a lefel yr ysgol fesul blwyddyn academaidd**

| | Lefel ysgol | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gallu addysgu yn Gymraeg | Ysgol gynradd | 180 | 135 | 150 | 145 | 110 |
| | Ysgol uwchradd | 140 | 120 | 95 | 90 | 100 |
| | Pob lefel | 320 | 255 | 245 | 235 | 210 |
| Ddim yn gallu addysgu yn Gymraeg | Pob lefel | 1,330 | 1,245 | 1,065 | 1,010 | 990 |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

[Gweld y data]

Mae nifer y myfyrwyr sy'n hyfforddi i addysgu yn Gymraeg wedi aros yn weddol sefydlog, yn annhebyg i nifer y myfyrwyr sy'n hyfforddi i addysgu yn Saesneg sydd wedi lleihau bob blwyddyn ers 2007/08 (a hynny'n rhannol am i'r Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon gael ei gyflwyno ar gyfer targedau derbyn yn eu cyfanrwydd). Yn 2017/18, roedd tua 1 o bob 6 myfyriwr AGA newydd yng Nghymru yn dilyn cyrsiau a oedd yn eu galluogi i addysgu yn Gymraeg.

**Tabl 17 – Pynciau'r rhai a ddechreuodd gyrsiau AGA uwchradd yng Nghymru yn ôl eu gallu i addysgu yn Gymraeg ym mlwyddyn academaidd 2017/18**

| | Ddim yn gallu addysgu yn Gymraeg | Gallu addysgu yn Gymraeg |
|---|---|---|
| Cyfanswm Gwyddoniaeth | 75 | 10 |
| Gwyddoniaeth Gyffredinol | 5 | * |
| Bioleg | 35 | 5 |
| Cemeg | 20 | 5 |
| Ffiseg | 15 | * |
| Mathemateg | 50 | 5 |
| Dylunio a Thechnoleg | 35 | 10 |
| Systemau Gwybodaeth | 20 | * |
| Celf | 5 | * |
| Astudiaethau Busnes | 10 | * |
| Drama | 15 | * |
| Saesneg | 55 | 5 |
| Daearyddiaeth | 20 | 5 |
| Hanes | 40 | 5 |
| Ieithoedd Modern | 15 | 15 |
| Cerddoriaeth | 15 | 5 |
| Addysg Gorfforol | 50 | 10 |
| Addysg Grefyddol | 20 | * |
| Cymraeg | * | 25 |
| Cyfanswm Ysgol Uwchradd | 425 | 100 |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

[Gweld y data]

Roedd chwarter y myfyrwyr newydd a oedd yn hyfforddi i addysgu yn Gymraeg wedi dewis pwnc STEM sy'n llai yn ôl cyfran na'r rhai a oedd yn hyfforddi i addysgu yn Saesneg yn unig. Y pynciau STEM yw Gwyddoniaeth, Mathemateg, Dylunio a Thechnoleg a TG.

**Tabl 18 – Sgiliau siarad Cymraeg hunan gofnodedig y rhai a ddechreuodd gyrsiau AGA yng Nghymru yn ôl eu gallu i addysgu yn Gymraeg ym Mlwyddyn Academaidd 2017/18**

| | Siaradwr Cymraeg rhugl | Ddim yn siaradwr Cymraeg rhugl | Pob Myfyrwyr |
|---|---|---|---|
| Hyfforddi i addysgu drwy'r Gymraeg | 190 | 20 | 210 |
| Ddim yn hyfforddi i addysgu drwy'r Gymraeg | 115 | 860 | 990 |
| Pob Myfyrwyr | 305 | 880 | 1,200 |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

a) 'Ddim yn siaradwr Cymraeg rhugl' yn cynnwys myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ond nad ydynt yn ystyried eu hunain yn rhugl. Mae'r rhai sydd â gallu Cymraeg anhysbys wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau.

[Gweld y data]

O'r rhai a oedd yn siarad Cymraeg yn rhugl, roedd y mwyafrif (62%) ohonynt wedi dechrau cyrsiau a oedd yn eu hyfforddi i addysgu yn Gymraeg. Fodd bynnag, nid oedd traean o'r rhai a oedd yn rhugl yn hyfforddi i addysgu yn Gymraeg (38%). Mae nifer y rhai sy'n dechrau hyfforddi i addysgu yn Gymraeg wedi lleihau draean ers 2013/14. Bu'r rhan fwyaf o'r lleihad hwn ar y lefel gynradd.

Mae nifer y dechreuwyr a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl wedi lleihau un rhan o bump ers 2013/14. Bu'r rhan fwyaf o'r lleihad hwn ar y lefel uwchradd, ond bu rhywfaint o leihad mewn niferoedd ar y lefel gynradd hefyd.

### Recriwtio o Grwpiau Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw dargedau penodol ar gyfer recriwtio myfyrwyr o leiafrifoedd i gyrsiau AGA. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar y sector cyhoeddus (sef dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus), gan gynnwys sefydliadau addysg uwch, i roi ystyriaeth ddyladwy i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.

Dechreuodd llai na 40 o bobl nad oeddent yn wyn hyfforddiant i fod yn athrawon yng Nghymru yn 2017/18, gan barhau, am yr ail flwyddyn, ar y lefel isaf a welwyd y degawd hwn. Yn 2017/18, roedd 3% o'r myfyrwyr AGA newydd yng Nghymru yn bobl nad oeddent yn wyn. Yn ôl y cyfrifiad, roedd 4% o boblogaeth Cymru yn bobl nad oeddent yn wyn yn 2011.

### Myfyrwyr o Gymru sy'n astudio mewn rhannau eraill o'r DU

Mae gwybodaeth am gyrchfannau myfyrwyr AGA o Gymru[14] yn awgrymu bod llawer ohonynt yn dychwelyd adref i ddechrau addysgu. Er nad yw gwledydd eraill y DU yn addysgu Cwricwlwm Cymru, gall y myfyrwyr AGA hynny ddychwelyd i Gymru o hyd pan fyddant yn dechrau addysgu.

**Tabl 19 – Lefel yr ysgol a'r wlad astudio ar gyfer myfyrwyr blwyddyn gyntaf o Gymru ar gyrsiau AGA yn y DU**

| | Gwlad Astudio | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol gynradd | Cymru | 680 | 665 | 640 | 630 | 585 |
| | Lloegr | 280 | 295 | 280 | 315 | 320 |
| | Holl (a) | 960 | 960 | 920 | 945 | 905 |
| Ysgol uwchradd | Cymru | 690 | 585 | 510 | 470 | 435 |
| | Lloegr | 160 | 165 | 180 | 245 | 215 |
| | Holl (a) | 850 | 750 | 690 | 720 | 650 |
| | Cyfanswm (a) | 1,810 | 1,715 | 1,610 | 1,670 | 1,555 |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyriwr HESA*

(a) Mae myfyrwyr o Gymru sy'n astudio yng Ngogledd Iwerddon neu'r Alban wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau.

[Gweld y data]

Bu gostyngiad o 37% yn nifer y myfyrwyr o Gymru ar gyrsiau uwchradd yng Nghymru dros bedair blynedd. Fodd bynnag, bu cynnydd o 34% yn nifer y myfyrwyr o Gymru a ddechreuodd hyfforddi yn Lloegr dros yr un cyfnod.

[14] Roedd rhywun yn dod o Gymru os oedd ei gyfeiriad cartref yng Nghymru cyn iddo ddechrau ei gwrs AGA.

Erbyn hyn, mae tua hanner cymaint o fyfyrwyr o Gymru yn dechrau hyfforddi yn Lloegr ag sy'n dechrau hyfforddi yng Nghymru i fod yn athrawon ysgol uwchradd. Bedair blynedd yn ôl, roedd y gyfradd hon yn llai na chwarter. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y bydd prinder athrawon yn y dyfodol yng Nghymru. Mae gwaith dadansoddi wedi dangos bod athrawon dan hyfforddiant yn debygol o ddychwelyd i'w rhanbarth ar ôl cwblhau eu hyfforddiant.

### 4.12 Y galw am arweinwyr yn y dyfodol

Fel y nodwyd yng Nghynllun Datblygu'r Gweithlu a gyhoeddwyd yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried datblygiadau ar gyfer Arweinyddiaeth, gan gynnwys cynllunio ar gyfer olyniaeth.

Mae'r diwygiadau presennol i'n system addysg yn ei gwneud yn ofynnol i arweinwyr ysgolion gael eu paratoi a'u cefnogi'n dda i arwain eu sefydliadau. Mae Cenhadaeth ein Cenedl yn rhoi arweinyddiaeth wrth wraidd y diwygiadau ac mae 'Arweinyddiaeth Ysbrydoledig' yn amcan galluogi allweddol. Er mwyn cefnogi'r maes gwaith hwn, gwnaethom sefydlu'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, a fydd yn sicrhau ansawdd, yn cefnogi ac yn adeiladu ar y ddarpariaeth ym maes arweinyddiaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd, gan ofalu bod y ddarpariaeth honno ar gael yn gyffredinol ac yn cael ei chyflwyno'n lleol er mwyn sicrhau'r un mynediad a darpariaeth i bawb. Yng Nghymru, bydd cymorth i gamu ymlaen yn eich gyrfa fel athro a gwella sgiliau arwain yn cael ei gyflwyno drwy nifer o raglenni datblygu. Mae diddordeb yn y Rhaglen Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP), a'r niferoedd sy'n ei dilyn, wedi cynyddu, ac mae rhaglen estynedig wedi cael ei chyflwyno sy'n cynnwys hyfforddiant, mentora a rhaglen datblygu lefel uchel. Y rhaglenni newydd i gefnogi penaethiaid dros dro a phenaethiaid newydd oedd y rhai cyntaf i gael eu cymeradwyo gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, gan sicrhau bod y rhai sy'n ymgymryd â'r rolau arweinyddiaeth hollbwysig hyn yn cael cymorth yn ystod blynyddoedd cynnar prifathrawiaeth.

Rydym yn cydnabod bod meysydd y mae angen eu datblygu er mwyn cefnogi ein hymarferwyr a'n system. Mae angen i waith cynllunio ar gyfer olyniaeth, fel proses systemig a chydlynol, fod yn nodwedd gref ar ein system. Rydym wedi gofyn i'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, gan weithio ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol eraill, ddechrau mynd i'r afael â'r maes hwn fel rhan o'i chylch gwaith tair blynedd, gan gynnwys nodi materion a thueddiadau yn y data ar y gweithlu mewn perthynas â chamu ymlaen mewn gyrfa a chynllunio ar gyfer olyniaeth, a datblygu cynigion cynllunio ar gyfer olyniaeth sy'n gweithio ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

### 4.13 Y cyflenwad o arweinwyr

Mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi cymeradwyo naw rhaglen sy'n cefnogi amrywiaeth o ddarpariaeth i ddatblygu arweinwyr o Benaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro i Benaethiaid Profiadol. Amcangyfrifwn y bydd y

rhaglenni hyn yn cefnogi taith arwain mwy na 500 o benaethiaid sy'n rhan o'r system ar hyn o bryd dros y flwyddyn i ddod, tra bod disgwyl i fwy o geisiadau am Gymeradwyaeth gael eu gwneud o fis Chwefror 2020. Bydd y rhaglenni hyn yn helpu i sicrhau cyflenwad o arweinwyr o ansawdd.

Bydd Llywodraeth Cymru, drwy'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, yn helpu'r system i ddatblygu cyflenwad cryf a chynaliadwy o staff medrus a brwdfrydig mewn rolau arwain – pobl sy'n barod i ateb heriau'r system nawr ac yn y dyfodol. Gan weithio gyda'r sector, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu ystod o ddarpariaeth arwain ddiwygiedig er mwyn paratoi athrawon yn well ar gyfer rolau arwain yn y system ysgolion. Bydd y rhaglenni newydd a gymeradwyir gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn cwmpasu'r ystod lawn o rolau arwain gan gynnwys Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro, Penaethiaid Profiadol, Darpar Benaethiaid ac Arweinwyr Canol.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i sicrhau bod athrawon ac arweinwyr yn barod ar gyfer y cwricwlwm newydd drwy ddatblygu'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol.

Fel rhan o Gynllun Datblygu'r Gweithlu, mae mathau newydd o ddysgu proffesiynol a chymorth ar ddechrau gyrfa wedi cael eu nodi hefyd. Bydd hyn yn cynnwys cynyddu faint o gymorth sydd ar gael i ymarferwyr ar gamau cynnar eu gyrfa megis rhaglen hyfforddi a mentora benodol a chyfres o safonau ar gyfer cymorth mentoriaid ynghyd â rhaglen o ddysgu proffesiynol cyffredin i fentoriaid. Bydd hyn yn sicrhau cymorth o'r ansawdd uchaf i ymarferwyr yn ystod blynyddoedd eu cyfnod ymsefydlu ac yn sicrhau gweithlu o fentoriaid cymwysedig sy'n gyson â ffactorau ysgogi'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnig datblygu pecyn dysgu proffesiynol cenedlaethol ar gyfer blynyddoedd cynnar gyrfa sy'n paratoi athrawon i fod yn ddysgwyr gydol oes ac yn meithrin dealltwriaeth ein hymarferwyr bod dysgu proffesiynol yn broses ac yn ddisgwyliad gydol eu gyrfa.

Gan weithio gyda'r consortia rhanbarthol, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu pecyn ar gyfer y blynyddoedd o'r cyfnod ymsefydlu hyd at flwyddyn gyrfa 5. Bydd hyn yn cynnig cysondeb a chydlyniad o ran yr hyn a gyflwynir i bob athro yn ystod blynyddoedd un i bump eu hymarfer.

Yn olaf, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda sefydliadau addysg uwch i ddatblygu cymhwyster lefel Meistr cyffredin i'w gyflwyno ledled Cymru drwy gytundebau cydfuddiannol rhwng ein sefydliadau addysg uwch partner.

### 4.14 Effaith ar ddosbarthiadau chwech / Addysg Bellach

Yn achos Dosbarthiadau Chwech Awdurdodau Lleol, mae'n rhaid dadgyfuno effaith cyflog athrawon wrth y gyllideb gyffredinol y cytunir arni. Gwneir hyn er mwyn adlewyrchu'r ffaith y caiff cyllid ar gyfer dosbarthiadau chwech ei ddarparu drwy grant arall. Y canlyniad fyddai bod yr un faint o gyllid yn cyrraedd yr Awdurdod Lleol ond bod

yr Awdurdod yn cydnabod bod swm ohono yn benodol ar gyfer darpariaeth Chweched Dosbarth.

Blaenoriaeth y Gweinidog ar hyn o bryd yw sicrhau cydraddoldeb rhwng cyflog athrawon a darlithwyr Addysg Bellach. Felly, mae unrhyw newid i gyflog athrawon yn debygol o gael yr un effaith ar Addysg Bellach.

Fodd bynnag, dylid nodi, fel cyrff ymreolaethol, fod sefydliadau Addysg Bellach yn negodi materion cyflog â'r Undebau Llafur ar y Cyd, ond dros y blynyddoedd diwethaf mae unrhyw gytundeb ynghylch cyflog athrawon wedi bod yn arwydd cadarn o ganlyniad y negodiadau hyn.

Yn 2019/20, am bob cynnydd o 1 y cant mewn cyflogau Addysg Bellach, roedd angen £2.4m yn ychwanegol.


Dylid nodi hefyd na chaiff yr un cydraddoldeb o ran cyflogau ei gynnig i'n rhwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant sy'n darparu prentisiaethau o dan gontract.

# Pennod 5: Cyflog athrawon - lefelau cymharol a rhoi'r diwygiadau diweddar ar waith

## 5.1 Dim anfantais i athrawon yng Nghymru o gymharu ag athrawon yn Lloegr


Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn gyhoeddus, ar ôl i gyflogau ac amodau gael eu datganoli i Gymru, na fydd athrawon ac arweinwyr ysgolion yng Nghymru yn wynebu unrhyw niwed o gymharu â'u cymheiriaid yn Lloegr. I gefnogi ystyriaethau Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, mae Siartiau 21 a 22 yn dangos cyflog canolrifol athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd (yn y drefn honno) yn rhanbarthau'r DU yn 2019, a gynhyrchwyd gan ddefnyddio data o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion. Mae cyflog canolrifol athrawon yng Nghymru yn yr ail safle ar gyfer athrawon ysgol gynradd ac yn y pedwerydd safle ar gyfer athrawon ysgol uwchradd yn rhanbarthau'r DU. Roedd athrawon amser llawn wedi'u cynnwys yn y ffigurau cyfartalog, heblaw am athrawon mewn rolau arwain. Dim ond athrawon amser llawn a oedd wedi'u cynnwys, am fod canran yr athrawon rhan amser yn amrywio yn ôl rhanbarth ac nid oedd mesur cyfatebol i fesurau cyfwerth ag amser llawn ar gael i safoni niferoedd rhan amser.

**Siart 19: Cyflog blynyddol canolrifol athrawon ystafell ddosbarth cynradd amser llawn yn rhanbarthau'r DU (2019)**




Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (2019)

**Siart 20: Cyflog blynyddol canolrifol athrawon ystafell ddosbarth uwchradd amser llawn yn rhanbarthau'r DU (2019)**




Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (2019)

## 5.2 Cyflog athrawon ystafell ddosbarth ac arweinwyr ysgolion

Mae data ar gyflogau a lwfansau athrawon yng Nghymru wedi cael eu tynnu o ymarfer casglu data ar gyflogau gan bob awdurdod lleol a gynhaliwyd er mwyn helpu i ddatblygu polisi. Casglwyd y data ar lefel gyfanredol fel yr oedd ym mis Tachwedd 2018 ac ni chânt eu cyhoeddi.

Yn 2019-20, trothwy cyflog isaf y brif ystod cyflog ar gyfer athrawon ystafell ddosbarth yng Nghymru yw £24,906, gyda throthwy uchaf o £40,490 ar gyfer yr ystod cyflog uchaf. Y cyflog isaf ar gyfer athrawon heb gymhwyso yw £17,682 gyda chyflog uchaf o £27,965.

Mae Tabl 20 yn dangos cyflog gros cymedrig athrawon ystafell ddosbarth cymwysedig ar y brif ystod cyflog a'r ystod cyflog uchaf ac athrawon ystafell ddosbarth heb gymhwyso ym mhob cyfnod. Ym mis Tachwedd 2018, cyflog gros cymedrig pob athro ystafell ddosbarth cymwysedig mewn ysgolion a gynhelir (heb gynnwys lwfansau) oedd £36,047 a chyflog gros cymedrig pob athro heb gymhwyso oedd £22,142.

Roedd cyflog gros cyfartalog athrawon ystafell ddosbarth mewn ysgolion meithrin ac ysgolion cynradd ychydig yn is nag athrawon ysgolion uwchradd. Roedd y cyflog gros mewn ysgolion arbennig ac ysgolion canol yn debyg i'r cyflog gros mewn ysgolion uwchradd. Roedd cyflog cyfartalog athrawon heb gymhwyso yn debyg mewn ysgolion cynradd a meithrin, ysgolion canol ac ysgolion uwchradd, ond roedd llawer yn uwch mewn ysgolion arbennig.

**Tabl 20 – Cyflog gros cymedrig (heb gynnwys lwfansau) athrawon ystafell ddosbarth cymwysedig ac athrawon ystafell ddosbarth heb gymhwyso yn ôl cyfnod (Cymru, Tachwedd 2018)**

| | Cyflog isaf / uchaf 2018/19 | Meithrin a chynradd | Canol | Uwchradd | Arbennig | Pob grŵp |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Athrawon cymwysedig | £22,917 - £38,633 | £35,716 | £36,139 | £36,376 | £36,378 | £36,047 |
| Athrawon heb gymhwyso | £17,208 - £27,216 | £21,450 | £20,471 | £21,954 | £23,923 | £22,142 |

Ffynhonnell: Casgliad cyflog athrawon Awdurdodau Lleol 2018 (Llywodraeth Cymru)

*(Caiff data ar gyflog athrawon unigol bellach eu casglu fel rhan o'r Casgliad Gweithlu Ysgolion Blynyddol, a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2019. Disgwylir i wybodaeth o'r cyfrifiad gael ei chyhoeddi yn ystod haf 2020.)*

## Cyflogau arweinwyr ysgolion

Mae'r ystod cyflog i arweinwyr yn cynnwys penaethiaid gweithredol, penaethiaid, dirprwy benaethiaid a phenaethiaid cynorthwyol ac, yn 2019/20, y cyflog isaf yw £41,065 a'r cyflog uchaf yw £114,060 yng Nghymru.

Mae Tabl 21 yn dangos cyflog cymedrig arweinwyr yn ôl gradd a chyfnod yn 2018. Yng Nghymru, cyflog gros cymedrig pob athro ar yr ystod cyflog i arweinwyr oedd £56,738 ym mis Tachwedd 2018. Ystod cyflog y grŵp arwain yn 2018/19 oedd £39,965 i £111,007.

Mae cyflog cymedrig arweinwyr ysgolion cynradd yn llawer is o gymharu â chyfnodau eraill.

**Tabl 21 – Cyflog gros cymedrig arweinwyr yn ôl gradd a chyfnod mewn ysgolion a gynhelir (Cymru, Tachwedd 2018)**

| | **Meithrin a chynradd** | **Canol** | **Uwchradd** | **Arbennig** |
|---|---|---|---|---|
| **Pennaeth*** | £59,258 | £84,735 | £84,911 | £72,898 |
| **Dirprwy bennaeth** | £48,916 | £58,607 | £64,285 | £57,870 |
| **Pennaeth cynorthwyol** | £44,770 | £51,384 | £55,470 | £51,553 |
| **Pob swydd arwain** | £53,768 | £58,817 | £63,203 | £60,729 |


*yn cynnwys penaethiaid gweithredol

Ffynhonnell: Casgliad cyflog athrawon Awdurdodau Lleol, 2018 (Llywodraeth Cymru)

Mae'r ganran fwyaf o athrawon, sef 60.0%, yn cael cyflog ar yr ystod cyflog uchaf i athrawon ystafell ddosbarth (Siart 23). Mae hyn fwy na dwywaith yn fwy na chanran yr

athrawon sy'n cael cyflog ar y brif ystod cyflog i athrawon ystafell ddosbarth, sy'n cynnwys 24.8% o athrawon. Mae 13.8% o'r holl athrawon ar yr ystod cyflog i arweinwyr.

**Siart 21 – Canran yr athrawon yng Nghymru ar bob ystod cyflog mewn ysgolion a gynhelir, ar sail cyfrif pen (2018)**




Ffynhonnell: Casgliad cyflog athrawon Awdurdodau Lleol (Llywodraeth Cymru)

**Tabl 22 – Cyflog gros cymedrig (heb gynnwys lwfansau) athrawon fesul sector ac ystod cyflog mewn ysgolion a gynhelir (Cymru, 2018)**

| Graddfa Gyflog | Cyflog Cyfwerth ag Amser Llawn Cyfartalog | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cynradd a Meithrin | Canol | Uwchradd | Arbennig |
| Athro heb gymhwyso | £21,450 | £20,471 | £21,954 | £23,923 |
| Athro ystafell ddosbarth – prif | £29,355 | £29,026 | £28,844 | £30,568 |
| Athro ystafell ddosbarth – uchaf | £38,848 | £38,944 | £38,976 | £38,840 |
| Ymarferydd Arweiniol | - | £51,416 | £50,717 | - |
| Arweinyddiaeth | £53,768 | £58,817 | £63,203 | £60,729 |


Ffynhonnell: Casgliad cyflog athrawon Awdurdodau Lleol (Llywodraeth Cymru)

## 5.3 Cyflog gweithwyr addysgu proffesiynol o gymharu â phroffesiynau eraill

Mae Siart 22 yn cymharu cyflog wythnosol gros cyfartalog swyddi yr ystyrir eu bod yn swyddi i raddedigion ac sydd, fel arfer, yn y sector cyhoeddus. Defnyddiwyd cyflog wythnosol am fod mwy o gategorïau ar gael nag ar gyfer cyflog blynyddol, ac mae'r ffigurau yn cynnwys gweithwyr amser llawn a rhan amser o'r sector preifat a'r sector cyhoeddus.

Mae gweithwyr proffesiynol uwch mewn sefydliadau addysgol yn y safle cyntaf ymhlith y 14 o broffesiynau yr oedd data ar gael ar eu cyfer, ond bydd hyn yn cynnwys gweithwyr proffesiynol mewn ysgolion, colegau a sefydliadau addysg bellach gan nad oes data ar wahân ar gael ar gyfer gweithwyr proffesiynol uwch mewn ysgolion. Mae gweithwyr addysgu proffesiynol mewn addysg uwchradd yn y pedwerydd safle, tra bod gweithwyr addysgu proffesiynol mewn addysg gynradd yn y pumed safle.

**Siart 22 – Cyflog wythnosol gros canolrifol gweithwyr proffesiynol ym maes addysg, meddygaeth, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru (2019)**




Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (2019

### 5.4 Defnyddio lwfansau

Mae athrawon ystafell ddosbarth yn cael taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (TLR) am gyflawni cyfrifoldeb ychwanegol parhaol. Roedd gwerthoedd TLR1 ar gyfer 2019/20 yn amrywio rhwng £8,069 a £13,654 (£7,853 i £13,288 yn 2018/19); roedd TLR2 yn amrywio rhwng £2,796 a £6,829 (£2,721 i £6,646 yn 2018/19); ac roedd TLR3 yn amrywio rhwng £555 a £2,757 (£540 i £2,683 yn 2018/19). Mae'r taliadau hyn yn cydnabod unrhyw gyfrifoldeb ychwanegol parhaol sydd gan athro a gallant fod yn gyfran sylweddol o gyflog athro.

Mae Tabl 23 yn dangos canran yr athrawon ystafell ddosbarth yng Nghymru a oedd yn cael pob math o TLR, ynghyd â gwerth cyfartalog pob math o TLR, yn ôl cyfnod. Caiff taliadau TLR eu defnyddio mwy mewn ysgolion uwchradd nag ysgolion cynradd.

Mae Tablau 24 a 25 yn dangos canran yr athrawon a oedd yn cael lwfansau heblaw am TLR, ynghyd â gwerth cyfartalog pob math o lwfans, yn ôl cyfnod.

**Tabl 23 – Canran yr athrawon ystafell ddosbarth* sy'n cael lwfansau TLR a gwerth lwfans TLR cyfartalog yn ôl cyfnod ysgol (Cymru, Tachwedd 2018)**

| | TLR1 | | TLR2 | | TLR3 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Canran sy'n cael lwfansau | Swm cyfartalog | Canran sy'n cael lwfansau | Swm cyfartalog | Canran sy'n cael lwfansau | Swm cyfartalog |
| Ysgolion Meithrin a Chynradd | 0.1% | £8,338 | 19.7% | £3,085 | 3.0% | £1,598 |
| Ysgolion Canol | 8.7% | £8,853 | 33.2% | £4,509 | 2.5% | £1,760 |
| Ysgolion Uwchradd | 11.6% | £9,174 | 40.9% | £4,663 | 4.4% | £1,993 |
| Ysgolion Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion | 1.5% | £8,226 | 19.0% | £3,663 | 2.9% | £2,220 |
| Pob Ysgol | 5.6% | £9,137 | 29.6% | £4,127 | 3.6% | £1,833 |

*yn cynnwys athrawon ystafell ddosbarth cymwysedig a heb gymhwyso

Ffynhonnell: Casgliad cyflog athrawon Awdurdodau Lleol, 2018 (Llywodraeth Cymru)

**Tabl 24 – Canran yr athrawon ystafell ddosbarth* (Cyfwerth ag Amser Llawn) sy'n cael lwfansau AAA, recriwtio a chadw a lwfansau eraill a gwerth cyfartalog y lwfansau hynny (Cymru, Tachwedd 2018)**

| | Lwfansau AAA | | Lwfansau recriwtio a chadw | | Lwfansau | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Canran sy'n cael lwfansau | Swm cyfartalog | Canran sy'n cael lwfansau | Swm cyfartalog | Canran sy'n cael lwfansau | Swm cyfartalog |
| Ysgolion Meithrin a Chynradd | 4.5% | £2,648 | 0.1% | £2,467 | 0.4% | £2,685 |
| Ysgolion Canol | 3.5% | £2,595 | 0.5% | £2,355 | 5.4% | £3,679 |
| Ysgolion Uwchradd | 2.3% | £2,715 | 1.2% | £2,362 | 2.4% | £3,999 |
| Ysgolion Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion | 90.7% | £2,901 | 0.1% | £2,667 | 2.0% | £3,870 |
| Pob Ysgol | 6.8% | £2,787 | 0.6% | £2,374 | 1.6% | £3,770 |

*yn cynnwys athrawon ystafell ddosbarth cymwysedig a heb gymhwyso

Ffynhonnell: Casgliad cyflog athrawon Awdurdodau Lleol, 2018 (Llywodraeth Cymru)

**Tabl 25 – Canran yr athrawon arwain (cyfwerth ag amser llawn) sy'n cael lwfansau recriwtio a chadw a lwfansau eraill (Cymru, Tachwedd 2018)**

| | Lwfansau recriwtio a chadw | | Lwfansau | |
|---|---|---|---|---|
| | Canran sy'n cael lwfansau | Swm cyfartalog | Canran sy'n cael lwfansau | Swm cyfartalog |
| Ysgolion Meithrin a Chynradd | 1.4% | £3,444 | 2.8% | £5,874 |
| Ysgolion Canol | 0.0% | - | 3.4% | £6,956 |
| Ysgolion Uwchradd | 0.8% | £4,287 | 2.1% | £10,188 |
| Ysgolion Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion | 1.3% | £5,277 | 8.5% | £7,690 |
| Pob Ysgol | 1.2% | £3,672 | 2.9% | £6,991 |

Ffynhonnell: Casgliad cyflog athrawon Awdurdodau Lleol, 2018 (Llywodraeth Cymru)

## 5.5 Symleiddio'r system gyflogau

O dan y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol bresennol, mae'n ofynnol i bob corff perthnasol fabwysiadu polisi sy'n nodi ar ba sail y mae'n pennu cyflog athrawon. O fewn y polisi hwnnw, cyfrifoldeb ysgolion unigol yw ystyried sut y dylai newidiadau i'r fframwaith cyflogau cenedlaethol gael eu cymhwyso i gyflogau a lwfansau unigol a

delir. Dylai'r polisïau hynny nodi sut y bydd yr ysgol yn ystyried newidiadau i drothwyon isaf ac uchaf yr ystodau cyflogau a lwfansau wrth wneud dyfarniadau cyflog unigol.

Yn ymarferol, deallwn fod y rhan fwyaf o ysgolion yng Nghymru (os nad pob un ohonynt) wedi mabwysiadu "polisi enghreifftiol" a ddarparwyd gan eu Consortia rhanbarthol lleol. Yn gyffredinol yng Nghymru, mae'r polisïau hyn yn cynnwys pwyntiau graddfa dangosol a chynyddrannau ar gyfer pob athro, hyd at uchafswm y raddfa. Mae adborth gan randdeiliaid allweddol, yn ogystal â thystiolaeth anecdotaidd gan ymarferwyr, yn awgrymu bod ysgolion yng Nghymru yn cefnogi'r dull gweithredu hwn.

O safbwynt cyflog ac amodau, mae ymchwil a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru[15] yn awgrymu nad yw cyflog yn sbardun allweddol i athrawon. Dylai fframwaith cyflogau ac amodau cenedlaethol roi rhywfaint o hyblygrwydd i gydnabod a gwobrwyo addysgu ac arweinyddiaeth effeithiol ond dylid gwneud hynny o fewn system genedlaethol o gyflogau ac amodau. Mae system o'r fath yn llawer mwy cost-effeithiol i'w gweinyddu; yn fwy tryloyw, yn fwy diduedd ac yn decach i bob aelod o staff pa le bynnag y mae'n gweithio.

Dylid ystyried ailgyflwyno pwyntiau graddfa er mwyn darparu cyfraddau cenedlaethol ar gyfer pob athro. Mae pwyntiau clir o'r fath yn llawer symlach i'w gweinyddu ac yn cynnig mwy o gysondeb a thryloywder ar draws y proffesiwn. Maent hefyd yn cael gwared ar y potensial am anghydfod a'r baich gweinyddol cynyddol cysylltiedig.

Felly, gallai ystodau cyflog a argymhellir yn genedlaethol helpu i ddarparu system gyflogau symlach i ysgolion, gyda graddfeydd cyflog safonedig cenedlaethol i'w cymhwyso at bob athro ac arweinydd ysgol yng Nghymru.

Ers cael gwared arnynt yn 2014, mae awdurdodau lleol yng Nghymru, fel y nodir uchod, wedi darparu eu graddfeydd dangosol eu hunain i ysgolion. Mae hyn wedi helpu ysgolion i gyfrifo / penderfynu ar bwyntiau cynnydd unigol rhwng isafswm ac uchafswm yr ystod cyflog. Yn dilyn newidiadau i'r cyfraddau isaf ac uchaf dros y blynyddoedd diwethaf, mae awdurdodau lleol yng Nghymru hefyd wedi darparu cyngor a diwygiadau blynyddol posibl i'r pwyntiau graddfa canolraddol hyn.

Fodd bynnag, gallai ailgyflwyno pwyntiau graddfa statudol olygu y bydd angen gwneud newidiadau sylweddol i'r fframwaith statudol ar gyfer cyflog athrawon yng Nghymru. Byddai'r rhain yn cynnwys newidiadau i delerau ac amodau athrawon statudol, yn enwedig mewn perthynas â datblygiad cyflog blynyddol ar sail perfformiad; Efallai y bydd angen ystyried materion cysylltiedig hefyd megis hyblygrwydd ysgolion i osod polisïau cyflog a'r hyblygrwydd cysylltiedig mewn canllawiau statudol sy'n bodoli eisoes.

[15] https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-03/astudiaeth-ymchwil-ar-ba-mor-ddeniadol-yw-gyrfa-addysgu-a-chadw-athrawon.pdf

Rhaid i unrhyw newidiadau arfaethedig ystyried pob mater cysylltiedig i leihau'r risg y bydd cysylltiadau annisgwyl yn achosi anawsterau mewn rhannau eraill o'r system.

## 5.6 Opsiynau posibl ar gyfer dyfarniad cyflog 2020/21 a chostau cysylltiedig

Rydym wedi nodi uchod fod dyfarniad cyflog sy'n arwain at gynnydd cyffredinol o 3% yng nghyfanswm y bil cyflog yn briodol ac yn fforddiadwy. Dylid ystyried yr adran hon ar y cyd â chyngor, yn enwedig y cyd-destun ariannol y manylir arno ym Mhennod 2 a Phennod 3.

Ni fydd cynnydd o 3% o reidrwydd yn arwain at ddyfarniad cyson ym mhob rhan o'r fframwaith cyflog. Mae'r adran hon hefyd yn nodi pedwar dull posibl o ymdrin â dyfarniad cyflog 2020/21 ac, yn amodol ar yr ystyriaethau uchod, bwyntiau graddfa posibl o fewn y strwythur hwnnw. Byddai'r pedwar opsiwn a gyflwynwyd yn fforddiadwy o fewn cynnydd o 3% i gyfanswm y bil cyflog ac mae cost pob un wedi'i nodi.

Mae opsiynau 1-3 yn nodi cynnydd sylweddol uwch na 3% ar gyfer cyflogau cychwynnol a chyflogau athrawon ar gamau cynnar yn eu gyrfa, ac yn sicrhau dyfarniadau cyflog uwchlaw chwyddiant i athrawon mwy profiadol ac arweinwyr ysgolion.

**Crynodeb o fodelau sefyllfa / cost ar gyfer dyfarniad cyflog athrawon 2020/21 (gan gynnwys costau ar gyfer addysgu blynyddoedd ysgol 12 a 13)**

| | 2019 | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | Opsiwn 3 | Opsiwn 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | *Cynnydd o 7.5% i isafswm y brif ystod cyflog; Cynnydd cyfartalog o 6.32% i bwyntiau 2 i 5 o'r brif ystod cyflog; Cynnydd o 2.5% i uchafswm y brif ystod cyflog a'r ystod cyflog uchaf; Cynnydd o 2.25% i'r ystodau cyflog a lwfansau eraill* | *Cynnydd o 6.7% i isafwm y brif ystod cyflog; Cynnydd cyfartalog o 6.0% i bwyntiau 2 i 5 o'r brif ystod cyflog; Cynnydd o 2.5% i uchafswm y brif ystod cyflog ac ystodau cyflog a lwfansau eraill* | *Cynnydd o 6.27% i isafwm y brif ystod cyflog; Cynnydd cyfartalog o 5.10% i bwyntiau 2 i 5 o'r brif ystod cyflog Cynnydd o 2.75% i uchafswm y brif ystod cyflog a'r ystod cyflog uchaf; Cynnydd o 2.5% i'r ystodau cyflog a lwfansau eraill* | *Cynnydd cyfradd safonol o 3%* |
| **Cyfanswm y cyflog pensiynadwy** | £995,762,740 | £1,025,304,506 | £1,025,414,324 | £1,025,864,391 | £1,025,635,622 |
| ***Costau pensiwn*** | £235,000,007 | £241,971,863 | £241,997,781 | £242,103,996 | £242,050,007 |
| ***Costau Yswiriant Gwladol*** | £109,101,092 | £112,666,154 | £112,681,309 | £112,743,419 | £112,711,848 |
| **Cyfanswm y Gost** | **£1,339,863,839** | **£1,379,942,524** | **£1,380,093,414** | **£1,380,711,807** | **£1,380,397,477** |
| **Y flwyddyn gyfredol -> Cynnydd penodedig** | | | | | |
| *Cynnydd yng nghyfanswm costau'r bil cyflog* | | *£40,078,685* | *£40,229,575* | *£40,847,968* | *£40,533,638* |
| *% y cynnydd* | | *2.99%* | *3.00%* | *3.05%* | *3.03%* |

Mae costau bil cyflog athrawon wedi'u seilio ar wybodaeth a gasglwyd am gyflog athrawon oddi wrth awdurdodau lleol ym mis Tachwedd 2018. Mae'r costau wedi dangos dosbarthiad cyson o athrawon ar draws yr ystodau cyflog a'r pwyntiau cyflog ar yr adeg honno.

Nodwch: Mae opsiwn 4, sef cynnydd cyfradd safonol o 3%, yn darparu cynnydd cyffredinol yn y bil cyflog sydd ychydig uwchlaw 3% oherwydd newidiadau i drothwyon Yswiriant Gwladol ar gyfer 2020/21.

**Opsiwn 1**

**Cynnydd o 7.5% i isafwm y brif ystod cyflog; cynnydd cyfartalog o 6.3% ar draws pwyntiau 2 i 5 o'r brif ystod cyflog; cynnydd o 2.5% i uchafswm y brif ystod cyflog a'r ystod cyflog uchaf a chynnydd o 2.25% ar draws yr holl ystodau cyflog a lwfansau eraill**

| Pwynt Cyflog | Strwythur Newydd | Pwyntiau cyflog (dangosol) presennol | Newid (£) | Newid (%) | Cynnydd blynyddol |
|---|---|---|---|---|---|
| P1 | £26,774 | £24,906 | £1,868 | 7.50% | |
| P2 | £28,034 | £26,041 | £1,993 | 7.65% | 12.6% |
| P3 | £29,996 | £28,133 | £1,863 | 6.62% | 15.2% |
| P4 | £32,096 | £30,299 | £1,797 | 5.93% | 14.1% |
| P5 | £34,343 | £32,686 | £1,657 | 5.07% | 13.3% |
| P6 | £36,870 | £35,971 | £899 | 2.50% | 12.8% |
| | | | | | |
| U1 | £38,595 | £37,654 | £941 | 2.50% | 7.3% |
| U2 | £40,026 | £39,050 | £976 | 2.50% | 6.3% |
| U3 | £41,502 | £40,490 | £1,012 | 2.50% | 6.3% |

**Opsiwn 2**

**Cynnydd o 6.7% i isafwm y brif ystod cyflog; cynnydd cyfartalog o 6.0% ar draws pwyntiau 2 i 5 o'r brif ystod cyflog; cynnydd o 2.5% i uchafswm y brif ystod cyflog ac ar draws yr holl ystodau cyflog a lwfansau eraill**

| Pwynt Cyflog | Strwythur Newydd | Pwyntiau cyflog (dangosol) presennol | Newid (£) | Newid (%) | Cynnydd blynyddol |
|---|---|---|---|---|---|
| P1 | £26,575 | £24,906 | £1,669 | 6.70% | |
| P2 | £27,994 | £26,041 | £1,953 | 7.50% | 12.4% |
| P3 | £29,962 | £28,133 | £1,829 | 6.50% | 15.1% |
| P4 | £31,965 | £30,299 | £1,666 | 5.50% | 13.6% |
| P5 | £34,157 | £32,686 | £1,471 | 4.50% | 12.7% |
| P6 | £36,870 | £35,971 | £899 | 2.50% | 12.8% |
| | | | | | |
| U1 | £38,595 | £37,654 | £941 | 2.50% | 7.3% |
| U2 | £40,025 | £39,050 | £975 | 2.50% | 6.3% |
| U3 | £41,502 | £40,490 | £1,012 | 2.50% | 6.3% |

**Opsiwn 3**

**Cynnydd o 6.27% i isafwm y brif ystod cyflog; cynnydd cyfartalog o 5.1% ar draws pwyntiau 2 i 5 o'r brif ystod cyflog; cynnydd o 2.75% i uchafswm y brif ystod cyflog a'r ystod cyflog uchaf; cynnydd o 2.5% ar draws yr holl ystodau cyflog a lwfansau eraill**

| Pwynt Cyflog | Strwythur Newydd | Pwyntiau cyflog (dangosol) presennol | Newid (£) | Newid (%) | Cynnydd blynyddol |
|---|---|---|---|---|---|
| P1 | £26,468 | £24,906 | £1,562 | 6.27% | |
| P2 | £27,713 | £26,041 | £1,672 | 6.42% | 11.3% |
| P3 | £29,653 | £28,133 | £1,520 | 5.40% | 13.9% |
| P4 | £31,729 | £30,299 | £1,430 | 4.72% | 12.8% |
| P5 | £33,950 | £32,686 | £1,264 | 3.87% | 12.0% |
| P6 | £36,960 | £35,971 | £989 | 2.75% | 13.1% |
| | | | | | |
| U1 | £38,689 | £37,654 | £1,035 | 2.75% | 7.6% |
| U2 | £40,123 | £39,050 | £1,073 | 2.75% | 6.6% |
| U3 | £41,603 | £40,490 | £1,113 | 2.75% | 6.5% |

**Opsiwn 4**

**Cynnydd cyfradd safonol o 3% ar draws yr holl ystodau cyflog a lwfansau**

| Pwynt Cyflog | Strwythur Newydd | Pwyntiau cyflog (dangosol) presennol | Newid (£) | Newid (%) | Cynnydd blynyddol |
|---|---|---|---|---|---|
| P1 | £25,653 | £24,906 | £747 | 3.00% | |
| P2 | £26,822 | £26,041 | £781 | 3.00% | 7.7% |
| P3 | £28,977 | £28,133 | £844 | 3.00% | 11.3% |
| P4 | £31,208 | £30,299 | £909 | 3.00% | 10.9% |
| P5 | £33,667 | £32,686 | £981 | 3.00% | 11.1% |
| P6 | £37,050 | £35,971 | £1,079 | 3.00% | 13.4% |
| | | | | | |
| U1 | £38,784 | £37,654 | £1,130 | 3.00% | 7.8% |
| U2 | £40,222 | £39,050 | £1,172 | 3.00% | 6.8% |
| U3 | £41,705 | £40,490 | £1,215 | 3.00% | 6.8% |